**Mesur Addysg (Cymru) 2011**

**Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) 2011**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae wedi'i ddiwygio yn unol â chynnig gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 o dan reol sefydlog 23.40, i adlewyrchu diwygiadau a wnaed i'r Mesur yn ystod Cam 2.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) 2011, a gyflwynwyd gennyf ar 6 Rhagfyr 2010 ac a ddiwygiwyd ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru graffu arno yn ystod Cam 2, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

***Leighton Andrews* AC**

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
Yr Aelod Cynulliad sydd â gofal y Mesur Arfaethedig

22 Mawrth 2011

Tudalen gynnwys

**RHAN 1**


1. Disgrifiad
2. Y Cefndir Deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**RHAN 2 - ASESU'R EFFAITH**

7. Yr Opsiynau
8. Costau a Manteision
9. Asesu Cystadleuaeth
10. Adolygiad ar ôl eu gweithredu

**RHAN 3 – NODIADAU ESBONIADOL**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi pwerau a dyletswyddau ar waith er mwyn sicrhau bod cydlafurio'n rhywbeth sy'n digwydd yn gyffredin, i wella llywodraethu ysgolion a symleiddio'r broses o gynllunio lleoedd ysgolion yng Nghymru.

1.2 Mae'n ategu ac yn cefnogi'r gwaith a gafodd ei wneud gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen, a bydd yn helpu i sefydlu modelau ar y cyd o ran cynllunio a darparu gwasanaethau ac yn helpu i wella perfformiad o fewn y system addysg yng Nghymru.

1.3 Bydd y cynigion yn gwella perfformiad ysgolion ac yn unol â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Maent yn rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed ar rôl llywodraethwyr ysgolion yn adroddiad 2009 y Pwyllgor Menter a Dysgu.

1.4 Mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- ysgogi cydlafurio rhwng awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach ("SAB");
- rhoi pŵer i awdurdodau lleol sefydlu ffederasiwn o ysgolion;
- hyfforddi llywodraethwyr ysgolion a gwella gwasanaeth clercio cyrff llywodraethu;
- atal ysgolion yn y dyfodol rhag newid categori i fod yn ysgolion sefydledig, ac atal ysgolion sefydledig newydd rhag cael eu sefydlu.

### 2. Y Cefndir Deddfwriaethol

2.1 Mewn perthynas â phwerau sy'n gwneud cydlafurio yn ofynnol rhwng awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a chyrff llywodraethu SAB, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") y cymhwysedd o dan Faterion 5.2B, 5.2C, 5.12 a 5.13 i weithredu'r newidiadau arfaethedig.

***Mater 5.2B***

*Sicrhau bod cydlafurio rhwng personau neu gyrff sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol.*

***Mater 5.2C***

*Y gweithgareddau canlynol gan bersonau neu gyrff sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol-*

*(a) sefydlu cyrff i wneud y cyfan neu rai o'r canlynol-*

*(i) cyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant,*

*(ii) arfer swyddogaethau ar ran awdurdodau addysg lleol;*

*(b) ymhél â'r cyrff a grybwyllwyd ym mharagraff (a).*

***Mater 5.12***

*Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â sefydlu a diddymu -*

*(a) sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addysg bellach, a*

*(b) cyrff sy'n rhedeg y cyfryw sefydliadau,*

*gan gynnwys yr amgylchiadau pan fydd sefydliad addysgiadol yn dechrau neu yn peidio ag ymwneud â darparu addysg bellach.*

*Darpariaeth ynghylch -*

*(a) rhedeg a swyddogaethau'r cyfryw sefydliadau;*

*(b) eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r cyfryw sefydliadau a chyrff sy'n rhedeg y cyfryw sefydliadau;*

*(c) eiddo a ddelir gan unrhyw berson at ddibenion y cyfryw sefydliad;*

*(d) llywodraethiant a staff y cyfryw sefydliadau.*

***Mater 5.13***

*Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â sicrhau cydlafurio -*

*(a) rhwng cyrff sy'n rhedeg sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addysg bellach, neu*

*(b) rhwng un neu ragor o'r cyfryw gyrff a phersonau neu gyrff eraill ac iddynt swyddogaethau sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant yng Nghymru,*

*gan gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â sefydlu cyrff at ddiben cyflawni swyddogaethau ar ran un neu ragor o bersonau neu gyrff sydd â rhan mewn trefniadau cydlafurio.*

*39. Mewn perthynas â phwerau i ddiddymu adran 347 o DA 1996, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd, o dan Fater 5.17, i weithredu'r newidiadau arfaethedig.*

2.2 Mewn perthynas â llywodraethu ysgolion, mae'r cymhwysedd o dan Fater 5.2A:

***Mater 5.2A***

*Rhedeg a llywodraethu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol, gan gynnwys dyrannu swyddogaethau, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag ysgolion o'r fath*.

2.3 Mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n atal ysgolion a gynhelir rhag newid categori i fod yn ysgolion sefydledig, ac atal creu ysgolion sefydledig newydd, mae gan y Cynulliad y cymhwysedd i wneud Mesur a fyddai'n caniatáu darpariaethau am y categori 'ysgolion sefydledig' o dan faterion 5.1 a 5.2:

***Mater 5.1***

*Darpariaeth am y categorïau o ysgol y caniateir eu cynnal gan awdurdodau addysg lleol.*

***Mater 5.2***

*Darpariaeth am sefydlu a chau ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol, eu newid o'r naill gategori i'r llall a'u newid mewn agweddau eraill.*

**Y Sefyllfa Gyffredinol**

2.4 Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol gyfredol am lywodraethu ysgolion wedi'i nodi yn bennaf yn Neddf Addysg 2002 (DA 2002) a Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (DAacA 2006) ac yn ymdrin â phynciau sy'n cynnwys y canlynol:-

- cyfansoddiad, swyddogaethau ac aelodaeth cyrff llywodraethu (yn bennaf adrannau 19, 20 a 34 o DA 2002);
- y modd y gall cyrff llywodraethu gydweithio neu ffedereiddio, gan gynnwys cydlafurio â SAB (adrannau 24-26 o DA 2002 ac adran 166 o DAacA 2006);
- cyfrifoldeb y corff llywodraethu dros redeg yr ysgol a hyrwyddo safonau uchel (adrannau 21 a 29B o DA 2002 ac adran 38 o DAacA 2006);
- pwerau i ddarparu cyfleusterau cymunedol; rheoli adeiladau ysgol; a phenderfynu ar amserlenni'r ysgol; (adrannau 27-28; 31; 32 o DA 2002 yn y drefn honno); a
- darparu hyfforddiant a chefnogaeth i lywodraethwyr (adran 22 o DA 2002) a phŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â chlerc y corff llywodraethu (adran 23 o DA 2002).

2.5 Yn adran 579(1) o DA 1996 y diffiniad o awdurdod lleol yw cyngor sir yng Nghymru, neu fwrdeistref sirol, ac mae ganddo lawer o swyddogaethau mewn perthynas ag addysg ei ardal. Nodir ei brif ddyletswydd yn adran 13 o DA 1996 sy'n darparu ei fod yn cyfrannu tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol a ffisegol y gymuned drwy sicrhau bod addysg gynradd ac

uwchradd effeithlon ar gael i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn ei ardal. Ar hyn o bryd mae gan awdurdod lleol nifer o bwerau i wneud trefniadau ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau ar y cyd (gan gynnwys ei swyddogaethau addysg) er bod y rhain yn gyfyngedig. Maent fel a ganlyn:

- adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r adran hon yn caniatáu i awdurdod lleol wneud unrhyw beth sy'n cael ei ystyried ganddo'n debygol o gyflawni nifer o amcanion penodedig;
- adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r adran hon yn caniatáu i awdurdodau lleol drefnu i weithrediaeth awdurdod lleol arall gyflawni ei swyddogaethau ar ei ran;
- adran 1 o Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970. Mae'r adran hon yn caniatáu i awdurdod lleol ddod i gytundeb ag awdurdod lleol neu gorff arall at rai dibenion penodedig a nodir, megis cyflenwi nwyddau a deunyddiau;
- adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae'r adran hon yn caniatáu i un awdurdod lleol ddod i gytundeb ag awdurdod lleol arall i gyflenwi gwasanaethau y mae eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau;
- adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994. Mae hon yn caniatáu i swyddogaeth awdurdod lleol gael ei chontractio allan a'i hymarfer gan berson arall yn amodol ar orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol;
- Rhan VI o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu ar gyfer caniatáu i awdurdod lleol wneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau gan awdurdod lleol arall drwy un o'i bwyllgorau;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Rhan 1 o'r Mesur hwn yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i ystyried a fyddai arfer ei bwerau cydlafurio yn y Mesur hwnnw yn ei helpu wrth gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Mesur hwnnw, ac a fyddai'n achosi i'r pwerau hynny gael eu harfer yn y modd hwnnw.

2.6 Mae'r SAB yng Nghymru yn sefydliadau a gynhelir gan gorfforaethau addysg bellach ("CAB") a sefydliadau dynodedig.

2.7 Mae'r CAB yn cael eu creu drwy orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 15 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("DABU 1992") neu drwy orchymyn Gweinidogion Cymru o dan adran 16 o'r Ddeddf honno. Ar hyn o bryd mae 16 CAB yng Nghymru.

2.8 Nodir prif bwerau CAB yn adran 18 o DABU 1992. Gall CAB ddarparu addysg bellach ac uwch; darparu addysg uwchradd sy'n addas i ofynion unigolion sydd wedi cyrraedd 14 oed; darparu addysg uwchradd; cyfranogi yn y ddarpariaeth o addysg uwchradd mewn ysgol; a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau mewn cysylltiad â'u darpariaeth addysg.

2.9 Rhaid i bob CAB feddu ar offeryn ac erthyglau llywodraethu. Rhaid i'r offeryn a'r erthyglau llywodraethu gydymffurfio â gofynion Atodlen 4 i DABU 1992.

2.10 Bydd pwerau a swyddogaethau cyrff llywodraethu sefydliad dynodedig wedi'u nodi mewn offeryn llywodraethu. Nodir darpariaethau ynghylch llywodraethu a rhedeg sefydliadau dynodedig yn adrannau 29-31 o DABU 1992.

2.11 O ran y darpariaethau am ysgolion sefydledig, mae Adran 20 o DSFfY 1998 yn darparu ar gyfer y categorïau canlynol o ysgolion a gynhelir yng Nghymru:

- Ysgolion cymunedol
- Ysgolion sefydledig
- Ysgolion gwirfoddol, gan gynnwys
  (i) ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, a
  (ii) ysgolion gwirfoddol a reolir
- Ysgolion arbennig cymunedol
- Ysgolion arbennig sefydledig

2.12 Mae Adran 28 o DSFfY 1998 ac Atodlen 6 i'r Ddeddf honno yn darparu ar gyfer sefydlu ysgolion newydd, gan gynnwys ysgolion sefydledig, gan naill ai awdurdod lleol neu hyrwyddwr arall.

2.13 Mae Adran 35 o DSFfY 1998, ac Atodlen 8 i'r Ddeddf honno, yn darparu ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru, sydd o fewn y categorïau a nodir yn adran 20 i newid o'r naill gategori i'r llall ymysg y rhai a nodir yn y paragraff hwnnw. Hefyd, mae adran 113A o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac Atodlen 7A i'r Ddeddf honno, yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud cynigion mewn cysylltiad â threfniadaeth ysgolion mewn rhai amgylchiadau penodol.

**3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

3.1 Nodir dibenion bras y ddeddfwriaeth hon yn adran 1 y memorandwm hwn. Mae disgrifiad manylach o'r darpariaethau yn y Nodiadau Esboniadol yn Rhan 3.

3.2 Nod y Mesur yw datblygu nifer o amcanion polisi allweddol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef:

- gwneud gwelliannau i lywodraethu ysgolion, a ysgogwyd gan adroddiad 2009 y Pwyllgor Menter a Dysgu;
- gyrru diwylliant o gydweithio yn y system addysg, gydag ymdrechion ar y cyd yn dod yn fwy cyffredin a rhannu arfer gorau (Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY)); a
- gwneud y defnydd o adnoddau yn y system addysg yn fwy effeithlon ac effeithiol (Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen (AARhF)).

3.3 Ar ddechrau 2010, ceisiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad ar faterion llywodraethu ysgolion er mwyn i'r Cynulliad allu gwneud Mesur i gryfhau ac addasu trefniadau llywodraethu ysgolion i sicrhau bod modd cyflawni'n fwy effeithiol

bolisïau allweddol, fel Llwybrau Dysgu 14-19, yr Agenda Trawsnewid a'r FfEY.

3.4 Mae cyflwyno'r polisïau hyn yn dibynnu ar ddarparwyr addysg yn gweithio gyda'i gilydd i godi safonau a gwella canlyniadau i ddysgwyr. Er mai prif amcan Llwybrau Dysgu 14-19 a'r Agenda Trawsnewid yw gwella cyfleoedd dysgu i ddysgwyr ôl-14 drwy ddarparu cwricwlwm eang sy'n rhoi gwell dewisiadau a chyfleoedd i ddisgyblion, y FfEY yw'r fframwaith polisi trosfwaol sy'n canolbwyntio ar blant oedran ysgol.

3.5 Mae'r FfEY yn ceisio creu ffordd well o weithio mewn addysg. Ei nod yw creu diwylliant lle mae cydlafurio'n digwydd yn naturiol, nid fel eithriad, ac arfer gorau'n digwydd yn eang ac yn cael ei efelychu. Bydd yr ymddygiadau hyn yn disodli hunan-fudd sefydliadol.

3.6 Bydd y ffocws ar sicrhau'r canlyniadau gorau i bob dysgwr yng Nghymru, gyda phwyslais penodol ar lythrennedd, rhifedd a gorchfygu effeithiau dinistriol tlodi ar gyfleoedd dysgwyr.

3.7 Mae nifer o ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol eisoes yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y cwricwlwm a'r gwasanaethau'n cael eu cynllunio'n well ac i sicrhau effeithlonrwydd o ran adnoddau. Mae hyn yn bwysig yn yr hinsawdd sydd ohoni, lle mae arian cyhoeddus ac adnoddau'n cael eu hymestyn. Mae'n bwysig bod darparwyr addysg yn parhau gyda'r gwaith hwn o gyflawni polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ond rhaid iddynt hefyd ystyried y darlun ehangach ac edrych i weld pa gyfleoedd a manteision eraill sy'n cael eu cynnig i ddysgwyr a fydd yn rhoi'r cychwyn gorau posibl i bobl ifanc yng Nghymru.

3.8 Ar 18 Mai 2010 cyhoeddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad gan PricewaterhouseCoopers ar y gost o weinyddu addysg yng Nghymru. Er mwyn symud ymlaen i weithredu argymhellion yr adroddiad, mae wedi ffurfio Bwrdd Rhaglen yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen, ynghyd â nifer o weithgorau i archwilio cyfleoedd penodol ac i fwrw ymlaen â hwy.

3.9 Amcan yr adolygiad yw sicrhau bod y system addysg yn cael ei llunio yn y fath fodd a fydd yn gwella perfformiad yn gyson ac yn gwella cyrhaeddiad dysgwyr ledled Cymru. Mae rhoi mwy o adnoddau i'r rheng flaen yn hanfodol i gyflawni hynny, fel y mae hyrwyddo i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer cydlafurio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

3.10 Yn benodol, mae gan y Mesur arfaethedig yr amcanion polisi canlynol:

*a) Cydlafurio*

3.11 Ei nod yw gwneud cydlafurio'n llawer mwy cyffredin, boed ymysg cyrff llywodraethu ysgolion a/neu rhyngddynt a chyrff llywodraethu SAB; neu rhwng unrhyw gorff llywodraethu ac awdurdodau lleol. Yn hytrach na

bod yn eithriad, y disgwyliad yw y bydd cydlafurio'n dod yn rhywbeth naturiol ac yn elfen sy'n digwydd yn amlach yn y system addysg. Mae'r Mesur yn gwneud hyn drwy roi dyletswydd ar ysgolion/SAB ac awdurdodau lleol i gydweithio i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau cyhoeddus mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant hyd at 19 oed.

*b) Ffedereiddio ysgolion a gynhelir*

3.12 Mae profiad Lloegr yn awgrymu y gall ffedereiddio cyrff llywodraethu ysgolion fod yn fanteisiol o ran gwella ansawdd ac ystod y ddarpariaeth ac y gall hefyd wneud ysgolion yn fwy effeithlon yn ariannol. Y rheswm dros hyn yw bod y strwythur llywodraethu unedig sy'n cael ei roi yn ei le gan ffedereiddio yn arwain yn naturiol at synergedd rhwng ysgolion. Mae'n annog cydlafurio rhwng staff ysgolion a'r defnydd rhanedig o adnoddau. Gall ffedereiddio ysgolion hefyd gryfhau recriwtio a chadw llywodraethwyr ysgolion, pan fydd cyrff llywodraethu'n ei chael hi'n anodd i ddenu neu gadw digon o lywodraethwyr neu pan fydd diffyg sgiliau gan lywodraethwyr i fod yn effeithiol. Er bod rheoliadau'n bodoli yng Nghymru sy'n caniatáu i gyrff llywodraethu ffedereiddio'n wirfoddol, gall y broses fod yn hynod anodd i gyrff llywodraethu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dymuno gwneud ffedereiddio'n rhywbeth mwy cyffredin, yn enwedig ymysg ysgolion bach. Ond er mwyn cyrraedd y nod hwnnw mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y bydd angen i awdurdodau lleol arwain y newidiadau. Nid yw'r gyfraith gyfredol yn caniatáu hyn, felly mae'r Mesur yn ei newid i ddarparu pŵer i awdurdodau lleol gynnig a chreu ffederasiwn o ysgolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymwybodol y byddai arfer y pŵer hwn yn creu llawer o waith i awdurdodau lleol sy'n cynnal nifer o ysgolion bach. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaeth i ymdrin â hyn a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn haws i awdurdod lleol gynnig ffederasiwn o ysgolion sydd â llai o ddisgyblion na'r nifer penodedig (i'w bennu mewn Gorchymyn). Disgwylir y byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei defnyddio pe bai awdurdod lleol yn perswadio Gweinidogion Cymru i'w defnyddio a phe bai'r Gweinidogion yn credu bod cynigion yr awdurdod yn deilwng o hynny. Mae'r Mesur hefyd yn darparu y gall Gweinidogion Cymru orchymyn i awdurdod lleol, corff llywodraethu neu ffederasiwn wneud darpariaeth ar gyfer ffedereiddio unrhyw ysgol a gynhelir sy'n destun pryder, waeth beth fo'i maint.

*b) Llywodraethu Ysgolion*

3.13 Cyfrannu at wella effeithiolrwydd cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir drwy wneud gwelliannau i'r modd y caiff llywodraethwyr eu hyfforddi ac i wasanaethau clercio'r cyrff llywodraethu. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy gyflwyno hyfforddiant gorfodol o ansawdd da i lywodraethwyr mewn meysydd a bennwyd – yn y lle cyntaf bwriedir i hyn fod yn hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr newydd, hyfforddiant i gadeiryddion cyrff llywodraethu a hyfforddiant i bob llywodraethwr ar ddefnyddio a deall data. Byddai gwella ansawdd clercod y cyrff llywodraethu drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig gwasanaeth clercio i'w hysgolion, cynnig hyfforddiant

penodol i glercod a gwneud hyfforddiant i glercod yn orfodol hefyd yn arwain at welliannau i effeithiolrwydd cyrff llywodraethu. Mae llywodraethwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda a chlercod da yn hanfodol i lywodraethu da, ac mae hynny'n ei dro'n hanfodol i godi perfformiad ysgol.

*c) Ysgolion Sefydledig*

3.14 Osgoi mwy o gymhlethdod yn y system dderbyn mewn ysgolion yng Nghymru a chadw rheolaeth yr awdurdodau lleol dros gynllunio lleoedd mewn ysgolion drwy atal ysgolion rhag newid categori i fod yn ysgolion sefydledig, ac atal rhagor o ysgolion sefydledig rhag cael eu sefydlu.

**Cynigion am Fesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)**

3.15 Mae disgrifiad manylach o'r darpariaethau yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig. Mae'r paragraffau canlynol yn grynodeb:

*a) Cydlafurio*

3.16 Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion, cyrff llywodraethu SAB ac awdurdodau lleol i ystyried sut y gallant, wrth arfer eu swyddogaethau, gydweithio â chyrff llywodraethu eraill mewn modd a fyddai'n datblygu'r amcan o ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac effeithlon. Dylid cydlafurio lle byddai hynny'n sicrhau defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

*b) Ffedereiddio*

3.17 Mae'r Mesur yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol gynnig a sicrhau ffedereiddio gan ddwy neu ragor o gyrff llywodraethu ysgolion. Byddai'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu'n unol â'r rheoliadau ac ystyried canllawiau statudol wrth arfer y pŵer hwn. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer cynnal ymgynghoriad ac mae'n cynnwys pŵer galluogi i wneud rheoliadau mewn perthynas â darpariaethau ychwanegol. Byddai'r rheoliadau a chanllawiau'n pennu meini prawf y byddai angen i awdurdod lleol eu hystyried cyn cynnig ffedereiddio. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys pan fydd yr awdurdod lleol yn ystyried ac yn gallu rhoi tystiolaeth y byddai hyn yn fwy manteisiol i ddysgwyr na threfniadau amgen ar gyfer llywodraethu neu drefniadaeth.

3.18 Mae'r Mesur yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer ffedereiddio, a byddai'n caniatáu ar gyfer gweithredu proses ymgynghori syml cyn ffedereiddio ysgolion bach. Byddai ysgol fach yn cael ei diffinio drwy Orchymyn a fyddai'n pennu nifer y disgyblion cofrestredig mewn ysgol, a nod y polisi fyddai symleiddio'r broses i awdurdodau lleol ffedereiddio cyrff llywodraethu ysgolion bach. Yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol fyddai'n penderfynu pa ysgol sy'n ffedereiddio ag un arall. Mae'r Mesur yn rhoi pŵer i Weinidogion orchymyn bod ysgolion sy'n destun pryder yn cael eu ffedereiddio.

*c) Llywodraethu Ysgolion*

3.19 Bydd yn ddyletswydd ar awdurdod lleol i gynnig Clerc cymwys sydd wedi'i hyfforddi i'r holl ysgolion a gynhelir ganddo.

3.20 Bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant penodedig i lywodraethwyr.

3.21 Bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnig hyfforddiant i glercod cyrff llywodraethu ysgolion.

3.22 Bydd pŵer gan Weinidogion Cymru i nodi manylion yr hyfforddiant sydd i'w gynnig i glercod, a manylion yr hyfforddiant i gadeiryddion.

*d) Ysgolion Sefydledig*

3.23 Diwygio adrannau 28 a 35 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (DSFfY 1998) ac Atodlenni 6 ac 8 i'r Ddeddf honno, a hefyd adran 113A o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac Atodlen 7A iddi, fel na fydd ysgolion sefydledig newydd yn cael eu sefydlu yng Nghymru ac na fydd ysgolion a gynhelir yn gallu newid categori i fod yn ysgol sefydledig.

**Materion y cyfeiriwyd atynt yn y Mesur Arfaethedig**

*a)* ***Cydlafurio***

3.24 Gall cyrff llywodraethu ysgolion a SAB eisoes ddewis cydlafurio o dan y gyfraith gyfredol drwy ffurfio cydbwyllgorau. Mae sefydlu trefniadau llywodraethu a rheoli ffurfiol drwy gydweithio yn galluogi'r sefydliadau hyn i uno'r gwaith sy'n ymwneud â chynllunio a chyflawni'r ddarpariaeth ddysgu ar draws sefydliadau yn yr ardal.

3.25 O ran cyrff llywodraethu ysgolion yn cydlafurio â chyrff llywodraethu ysgolion eraill, mae awdurdodau lleol wedi dweud nad ydynt hwy'n ymwybodol fod ysgolion yn defnyddio'r Rheoliadau Cydlafurio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008 i ffurfio cydbwyllgorau er mwyn archwilio manteision ehangach gweithio ar y cyd yn y dull hwn.

3.26 O ran ysgolion a SAB, rheoliadau galluogi yw Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008. Bydd cyrff llywodraethu'r sefydliadau hyn yn rhydd i barhau â threfniadau cydlafurio, os ydynt yn dymuno hynny.

3.27 Mae cydlafurio rhwng ysgolion a SAB a rhywfaint o gydweithio rhwng ysgolion ac ysgolion yn digwydd ar hyn o bryd i gyflawni'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a'r Agenda Trawsnewid, sy'n ategu'r Mesur hwnnw. Mae llawer o hyn yn digwydd yn anffurfiol drwy gytundeb penaethiaid ysgolion a phrifathrawon. Nod y Mesur yw cryfhau ac ehangu'r dulliau ffurfiol er mwyn i gydweithio fod yn ganolog i lywodraethu addysg. Drwy wneud hyn mae cydlafurio'n rhan annatod o'r system, a'r bwriad ei fod yn dod yn rhywbeth naturiol yn hytrach nag yn rhywbeth ychwanegol. Yn yr un modd, mae

Agenda Trawsnewid Llywodraeth y Cynulliad yn anelu at leihau dyblygu'r ddarpariaeth yn ddiangen, ac annog dysgu ac addysgu o ansawdd uwch; mae'n berthnasol i'r holl ddarpariaeth ôl-16. Ni all unrhyw ddarparwr unigol wireddu'r amcanion hyn. Felly, mae disgwyl i ddarparwyr sefydlu cydlafurio effeithiol i ategu'r hawliad 14-19 a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran cyfleoedd llwyddiannus i ddysgwyr. Mae'n ddyletswydd eisoes ar awdurdodau lleol i ystyried a fyddai arfer eu pwerau yn y Mesur hwnnw yn eu helpu i gydymffurfio â'u dyletswydd i geisio gwelliant parhaus yn y defnydd o'u swyddogaethau, ac a fyddai'n achosi i'r pwerau hynny gael eu harfer (Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009). Mae'r pwerau cydlafurio'n cynnwys cyflawni eu swyddogaethau ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill, ond nid yw'n cynnwys cyflawni'r swyddogaethau hynny ar y cyd â chyrff llywodraethu ysgolion a SAB.

3.28 Bwriad y Mesur arfaethedig yw cryfhau'r trefniadau hyn a cheisio sicrhau bod gweithio ar y cyd yn gadarnach drwy roi dyletswydd ar ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol i ystyried a ddylid cydlafurio.

*b) Ffedereiddio ysgolion*

3.29 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn fod llawer o botensial i ffedereiddio ysgolion. Ond mae'n annhebygol y gwireddir hyn oni fydd y broses yn gwella drwy ganiatáu i awdurdodau lleol chwarae eu rhan. Mae'n gymhleth, yn feichus ac felly'n broses nad yw'r cyrff llywodraethu am orfod mynd drwyddi ar eu pennau eu hunain. Dylai ffedereiddio sydd wedi'i gynllunio'n synhwyrol gymryd i ystyriaeth anghenion yr ysgol dan sylw a chyd-destun ehangach yr ardal o ran ei haddysg. Daeth Llywodraeth y Cynulliad i'r casgliad fod y gyfraith gyfredol yn rhy gyfyngol. Mae angen rhoi pŵer i awdurdodau lleol gael cynnig a gwneud ffederasiynau. Fel arall mae'n annhebygol o fod yn elfen gyffredin o'r system addysg.

*c) Llywodraethu Ysgolion*

3.30 Er bod adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu yn 2009 ar rôl llywodraethwyr ysgol yn pwysleisio'r gwaith rhagorol sydd eisoes yn cael ei wneud gan lywodraethwyr, roedd hefyd yn tynnu sylw at rai meysydd lle'r oedd modd gwneud gwelliannau. Gwnaed nifer o argymhellion, yn benodol ynghylch hyfforddi a chefnogi llywodraethwyr a gwaith clercod mewn cyfarfodydd o'r cyrff llywodraethu. Nododd yr adroddiad amrywiadau yn yr arferion ledled Cymru o ran yr hyn a ddarperir gan awdurdodau lleol yn y meysydd hyn. Daethpwyd i'r casgliad hefyd fod ansawdd y clercio'n debygol o fod yn uwch os yw'r clerc yn un o weithwyr yr awdurdod lleol sydd wedi'i hyfforddi mewn materion llywodraethu ysgolion. Roedd yn mynegi hefyd bod llywodraethwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda a chlercod da yn hollol hanfodol i lywodraethu da, ac mae hynny'n hanfodol i berfformiad ysgolion.

3.31 Mae'r Mesur arfaethedig yn ceisio ymdrin â'r pryderon hyn drwy ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnig gwasanaeth clercio a

hyfforddiant i glercod i ysgolion a gynhelir. Mae hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu cynnwys yr hyfforddiant i glercod.

3.32 Er mwyn ymdrin â phryderon y Pwyllgor Menter a Dysgu am ansawdd a chwmpas hyfforddiant llywodraethwyr a'r nifer sy'n manteisio ar yr hyfforddiant hwnnw, byddai'r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu hyfforddiant gorfodol a phenderfynu ar gynnwys yr hyfforddiant hwnnw.

*d) Ysgolion Sefydledig*

3. 33 Mae 12 o ysgolion sefydledig yng Nghymru. I raddau helaeth maent yn etifeddiaeth y system ysgolion a gynhelir â grant. Mae gan lywodraethwyr ysgolion sefydledig ddyletswyddau a phwerau mewn perthynas â derbyniadau ac unrhyw newidiadau a bennir ar gyfer yr ysgolion. Rhaid i gynigion am newidiadau a bennir, fel cael gwared â'r chweched dosbarth, gael eu dwyn ymlaen fel arfer gan y corff llywodraethu yn hytrach na'r awdurdod lleol, oni wneir trefniadau i ddirprwyo i awdurdodau lleol bwerau Gweinidogion Cymru sy'n deillio o Ddeddf 2000, i gynnig cael gwared â'r chweched dosbarth. Mae pŵer yr awdurdod lleol wedi'i gyfyngu i wneud cynigion i gynyddu capasiti ysgolion sefydledig. Gan nad oes gan yr awdurdod lleol reolaeth dros dderbyniadau mae rhai ysgolion sefydledig wedi tyfu o ran maint tra bod ysgolion lleol eraill wedi gweld gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn. Mae hyn wedi ychwanegu at y lleoedd gwag mewn rhai cymdogaethau ac yn mynd yn erbyn y polisi o ddatblygu perthynas agos rhwng ysgolion a'r cymdogaethau y maent yn eu gwasanaethu. Er nad yw'r sefyllfaoedd hyn yn digwydd yn gyffredinol, gallai datblygiadau o'r fath leihau rheolaeth uniongyrchol yr awdurdod lleol ar gynllunio lleoedd ysgolion mewn achosion lle gallai'r cynnydd yn y capasiti yn sgil hynny godi amheuaeth ynghylch hyfywedd yr ysgolion hyn.

3.34 Mae'r categori cyfredol yn cymhlethu'r broses dderbyn, y gwaith o gynllunio lleoedd ysgolion a chynllunio buddsoddi cyfalaf. Weithiau gall hyn ofyn am ddull mwy anuniongyrchol ac, o bosibl, mwy radical o gynllunio lleoedd ysgolion na'r hyn sy'n digwydd yn achos ysgolion cymunedol yn unig. Nid yw'n fwriad i orfodi'r ysgolion sefydledig sydd eisoes yn bodoli i newid categori. Ond bydd atal creu ysgolion sefydledig newydd a newidiadau pellach o ran categori i ysgolion sefydledig yn cadw at y sefyllfa bresennol o reolaeth awdurdodau lleol ar dderbyniadau.

**Ar bwy mae'r Mesur arfaethedig yn effeithio**

3.35 Cyrff neu unigolion sy'n ddarostyngedig i'r Mesur arfaethedig yw:

awdurdodau lleol;
cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir;
cyrff llywodraethu rhai SAB;
clercod cyrff llywodraethu ysgolion; ac

ysgolion a gynhelir.

**Gweithredu a Chyflawni**

**Cydlafurio a Ffedereiddio**

3.36 Mae’r cymalau sy’n ymwneud â chydweithio a ffedereiddio’n cael eu cychwyn gan Orchymyn. Rydym yn rhagweld na fyddai’r Gorchymyn a’r rheoliadau’n dod i rym cyn Medi 2012. Mae’r Mesur hefyd yn darparu ar gyfer cyhoeddi canllawiau statudol ar gydweithio. Disgwylir i’r canllawiau hyn gael eu cyhoeddi yr un pryd â gwneud y gorchymyn a’r rheoliadau.

3.37 Mewn perthynas â ffederasiynau, bydd yn ofynnol cael rheoliadau newydd (wedi’u modelu ar y Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2010 presennol), ynghyd â chanllawiau statudol. Felly rhagwelir y byddai’r darpariaethau hyn yn dod i rym ym mis Medi 2012.

**Llywodraethu**

3.38 Bydd gofyn cael rheoliadau newydd sy'n cynnwys y gofyniad am hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr a chlercod; a rhai sy'n cwmpasu cynnwys yr hyfforddiant hefyd. Byddem yn disgwyl ymgynghori â rhanddeiliaid megis awdurdodau lleol a Llywodraethwyr Cymru ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth cyn paratoi'r rheoliadau.

3.39 Rydym yn rhagweld y bydd yr ymgynghoriad a'r broses gwneud rheoliadau yn cymryd tua blwyddyn, sy’n golygu y byddai’r rheoliadau’n dod i rym ym mis Medi 2012 ar gyfer dechrau'r flwyddyn ysgol newydd.

**Cymhwysiad Tiriogaethol**

3.40 Mae'r mesur hwn yn berthnasol i Gymru

**Cychwyn**

3.41 Mae'r darpariaethau sy’n ymwneud â chydweithio a ffederasiynau ysgolion yn cael eu cychwyn drwy orchymyn cychwyn. Nodir y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn adran 5, ynghyd â'r dyddiadau y disgwylir iddynt ddod i rym, sef Medi 2012.

3.42 Byddai’r darpariaethau sy’n ymwneud â Llywodraethwyr a Chlercod yn dod i rym ym mis Medi 2012.

3.43 Bwriedir y bydd y cyfyngiad ar ysgolion sy'n newid categori i fod yn ysgolion sefydledig yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y diwrnod y bydd Mesur y Cynulliad yn cael Cydsyniad Brenhinol.

**4. Ymgynghori**

4.1 Er na chynhaliwyd ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig, gofynnwyd am farn rhanddeiliaid allweddol ar amcanion polisi bras y cynigion. Llwyddwyd i wneud hyn drwy anfon llythyr gan y Gweinidog i randdeiliaid allweddol a chynnal cyfarfodydd ar lefel swyddogol o fis Medi 2010 ymlaen. Dyma'r rhanddeiliaid y cysylltwyd â hwy:

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC);
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAD);
Llywodraethwyr Cymru;
Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru;
Colegau Cymru;
Undebau Athrawon;
Awdurdodau Esgobaethol;
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig;
Y Comisiynydd Plant;
SNAP Cymru;
Panel Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd;
Estyn; a
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

4.2 Rhoddwyd ymatebion ar ôl gweld y Mesur drafft llawn. Fodd bynnag, bu modd nodi meysydd lle'r oedd croeso i'r cynigion yn gyffredinol a hefyd lle codwyd pryderon.

4.3 Roedd cefnogaeth gref i egwyddor cydlafurio, ond hefyd cododd yr ymatebwyr rai pwyntiau pwysig i'w hystyried. Argymhellodd un ymatebydd y dylai awdurdodau lleol allu dirprwyo cyllid i grwpiau o ysgolion er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar y cyd o ran sut i gyfeirio adnoddau. Cafwyd hefyd rai rhybuddion na ddylid rhagdybio y byddai pob achos o gydweithredu'n arwain at arbed costau; nodwyd y gallai cydlafurio arwain at gostau. Byddai angen diogelu ansawdd gwasanaethau hefyd. Un farn oedd nad oedd deddfwriaeth yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cydlafurio a barn arall oedd na ddylai fod yn orfodol.

4.4 Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynigion mewn perthynas â llywodraethwyr ysgolion. Roedd peth pryder y gallai gwneud hyfforddiant yn orfodol effeithio ar recriwtio ac roedd dau ymatebydd o'r farn nad oedd angen i'r hyfforddiant i Gadeiryddion fod yn orfodol; teimlai un ymatebydd nad oedd deddfwriaeth yn y maes hwn yn angenrheidiol. Roedd y mwyafrif o'r sylwadau'n canolbwyntio ar y cymorth yr oedd ei angen ar lywodraethwyr, a manylion eu rôl. Roedd sawl barn wahanol o ran ymdrin ag achosion disgyblu – un farn oedd y dylid canolbwyntio ar yr hyfforddiant yma, a barn arall oedd na ddylai fod gan lywodraethwyr rôl mewn achosion o'r fath. Mynegwyd y farn fod angen i'r holl lywodraethwyr fod yn glir o ran eu rôl, hyfforddiant, cymorth, cyngor (gan gynnwys cyngor proffesiynol). Awgrymiadau eraill oedd na ddylai clercod fod yn weithwyr awdurdod lleol; roedd dyletswydd ar lywodraethwyr i roi'r

ystyriaeth ddyledus i gyngor proffesiynol; dylai cyrff llywodraethu fod yn llai o ran maint; roedd angen ystyried manylder yr hyfforddiant sydd i'w ddarparu a byddai angen yr adnoddau priodol ar yr hyfforddiant.

4.5 Roedd gwahaniaeth barn ar y cynigion i atal rhagor o ysgolion rhag newid categori i fod yn ysgolion sefydledig, ac roedd rhai sefydliadau yn credu na allent fynegi safbwynt gan na fyddai eu haelodau i gyd o'r un farn. Ar gyfartaledd roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig. Un awgrym oedd newid rôl yr ysgolion sefydledig presennol o ran derbyn disgyblion a rhoi mwy o gyfrifoldeb iddynt am ddod o hyd i leoedd i ddisgyblion. Mynegwyd pryder y byddai'r cynigion yn arwain at fwy o ddylanwad i gynghorwyr lleol; llai o ddewis; llai o symbyliad i wella safonau; a byddai rhwystrau i ysgolion rhag ymgymryd â chynllunio ariannol hirdymor. Codwyd y cwestiwn pam nad oedd yn fwriad atal newid categori i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Roedd un ymateb a gafwyd yn argymell y dylai'r Mesur roi'r holl ysgolion sefydledig yn ôl dan reolaeth yr awdurdod lleol.

4.6 Yn ogystal â'r sylwadau uchod, mae'r cynigion i wella hyfforddiant llywodraethwyr a'r gwasanaeth clercio mewn perthynas â llywodraethu ysgolion yn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan adroddiad 2009 y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Rôl Llywodraethwyr Ysgolion. Wrth lunio ei adroddiad, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraethwyr Cymru; Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau; Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ac Estyn.

4.7 Mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig. I weld yr ymatebion, ewch i:

http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/proposed_education_wales_measure_2011/education_responses.htm

**5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth**

5.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 1 isod yn nodi mewn perthynas â bob darpariaeth:

- y person neu'r sefydliad y rhoddir y pŵer iddo;
- y ffurf ar gyfer arfer y pŵer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn gymwys (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn) os o gwbwl; ac
- esboniad o unrhyw weithdrefnau'r Cynulliad a all fod yn gymwys.

**Tabl 1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

| Adran | Pŵer i: | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn | Rheswm am y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6** Cynigion ar gyfer sicrhau cydlafurio rhwng awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a SAB. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas i reoliadau gan y bydd yn rhoi manylion y cynllun sy'n dilyn bwriad y Mesur ei hunan. | Gweithdrefn negyddol | Bydd cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn dechnegol a bydd yn rhoi manylion am gynllun y Mesur. Ystyriwn y gallai fod yn briodol i ddiweddaru cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn rheolaidd. |
| Adrannau 11, 12, 13, 14 a 18 Pŵer i Weinidogion Cymru bennu sut gall awdurdodau lleol gynnig a sefydlu ffederasiynau ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas i reoliadau gan y bydd yn rhoi manylion y cynllun sy'n dilyn bwriad y Mesur ei hunan. | Gweithdrefn negyddol | Bydd cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn dechnegol dechnegol a bydd yn rhoi manylion am gynllun y Mesur. Ystyriwn y gallai fod yn briodol i ddiweddaru cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn rheolaidd |
| Adran 15 Pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno Gorchymyn Ysgolion Bach sy'n pennu isafswm nifer | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas i reoliadau gan y bydd yn rhoi manylion gweinyddol sy'n dilyn bwriad y Mesur ei hunan. Gall hefyd wneud | Gweithdrefn negyddol | Bydd pennu nifer y disgyblion a'r lleoliad yn dechnegol a gall fod yn briodol diweddaru'r nifer yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| disgyblion ar gyfer ffederasiwn o gyrff llywodraethu ysgolion. | | | darpariaeth wahanol ar gyfer achos neu ddosbarthiadau o achosion gwahanol. | | rheolaidd. |
| Adran 21 Pŵer i Weinidogion Cymru bennu hyfforddiant gorfodol a chynnwys yr hyfforddiant i glercod cyrff llywodraethu | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas i reoliadau gan y bydd yn rhoi manylion gweinyddol ac yn rhoi cynnwys yr hyfforddiant sy'n dilyn bwriad y Mesur ei hunan. Gall hefyd sicrhau'r ddarpariaeth o hyfforddiant penodedig i glercod. | Gweithdrefn negyddol | Bydd cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn dechnegol a bydd yn rhoi manylion am gynllun y Mesur. Ystyriwn y gallai fod yn briodol i ddiweddaru cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn rheolaidd. |
| Adran 22 Pŵer sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu clerc i gorff llywodraethu os daw cais i law | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas i reoliadau gan y bydd yn rhoi manylion gweinyddol sy'n dilyn bwriad y Mesur ei hunan. | Gweithdrefn negyddol | Bydd cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn dechnegol a bydd yn rhoi manylion am gynllun y Mesur. Ystyriwn y gallai fod yn briodol i ddiweddaru cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn rheolaidd. |
| Adran 23 Rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant gorfodol ar gyfer | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas i reoliadau gan y bydd yn rhoi manylion gweinyddol a chynnwys yr hyfforddiant sy'n dilyn | Gweithdrefn negyddol | Bydd cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn dechnegol a bydd yn rhoi manylion am gynllun y Mesur. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| llywodraethwyr. Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru nodi cynnwys yr hyfforddiant i lywodraethwyr a chyhoeddi canllawiau statudol. | | | bwriad y Mesur ei hunan. Gall hefyd sicrhau'r ddarpariaeth o hyfforddiant a bennir i lywodraethwyr a bennir i ysgolion a gynhelir. | | Ystyriwn y gallai fod yn briodol diweddaru cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn rheolaidd. |
| Adran 29 Pwerau atodol | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas i reoliadau gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â manylion technegol diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n dilyn bwriad y Mesur. | Gweithdrefn negyddol | Bydd cynnwys y Gorchymyn yn dechnegol. |
| Adran 31 Gorchmynion a Rheoliadau | Gweinidogion Cymru | Gorchmynion a Rheoliadau | Pŵer cyffredinol sy'n caniatáu i'r rheoliadau wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd neu sefyllfaoedd gwahanol yn ogystal â darpariaeth atodol a chysylltiedig | | Pŵer cyffredinol yw hwn sy'n darparu ar gyfer hyblygrwydd yn y modd y gellir rhoi rheoliadau ar waith |
| Adran 32 Cychwyn adrannau | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Gorchymyn Cychwyn | Dim gweithdrefn | Gorchymyn Cychwyn |

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau yn unol â Rheol Sefydlog 23.18 (vi) ar gyfer y Mesur arfaethedig ac mae'n dilyn yn Adran 7.

6.2 Nid yw'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn golygu unrhyw gostau newydd sylweddol neu ychwanegol o ran gweinyddu, cydymffurfio neu gostau eraill gan eu bod yn delio â newidiadau mân i strwythurau llywodraethu presennol, ac yn ceisio hyrwyddo dulliau o gydweithio neu newidiadau gweinyddol er budd gwireddu effeithlonrwydd.

6.3 Pan fydd costau newydd ac ychwanegol yn codi nodir y rhain yn adran 8 mewn perthynas â phob rhan o'r Mesur arfaethedig ac ymhle y byddai’r costau hyn yn digwydd.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Yr Opsiynau

7.1 Mae'r opsiynau canlynol yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r cynigion a nodir yn y Mesur arfaethedig:

**Opsiwn 1:** Gwneud dim.
**Opsiwn 2:** Cyflwyno mân newidiadau gan ddefnyddio deddfwriaeth bresennol a hyrwyddo newidiadau eraill drwy ganllawiau a lledaenu arfer da.
**Opsiwn 3:** Cyflwyno Mesur Cynulliad.

**Opsiwn 1 - Gwneud Dim**

7.2 Yn gryno byddai dewis yr opsiwn 'gwneud dim' yn golygu'r canlynol:

- Nid oes modd rhoi sylw llawn i'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar rôl llywodraethwyr ysgolion;
- Ni fyddai modd cyflwyno hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr - byddai rhyddid gan lywodraethwyr i ddewis a ydynt yn mynychu'r hyfforddiant hwn;
- Ni allai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu hyfforddiant penodol i grwpiau penodol o lywodraethwyr - byddai rhyddid ganddynt i ddewis pa bynciau mae'r hyfforddiant yn eu cwmpasu a phwy ddylai fynychu’r hyfforddiant hwnnw;
- Ni fyddai rheolaeth ar gynnwys ac ansawdd yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig;
- Ni allai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig gwasanaeth clercio i ysgolion a gynhelir nac i gynnig hyfforddiant i glercod;
- Ni fyddai unrhyw reolaeth ar gynnwys yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig i glercod ar hyn o bryd;
- Byddai’r cyfle yn cael ei golli i sicrhau bod cydlafurio’n ganolog i athroniaeth, penderfyniadau a dull gweithredu’r system addysg;
- Byddai ffedereiddio ysgolion yn dal i fod yn fater i'w bennu gan y cyrff llywodraethu ac ni fyddai gan yr awdurdodau lleol bwerau i sefydlu ffederasiwn.
- Weithiau byddai’n rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio dulliau eraill i reoli’r cyflenwad o leoedd mewn ysgolion mewn modd strategol, gan y gallai fod rhwystrau i allu'r awdurdodau lleol i weithredu’n uniongyrchol pe bai rhagor o ysgolion sefydledig yn cael eu creu neu’n dod i fodolaeth trwy newid categori.

**Cydlafurio**

7.3 Mae'r gyfraith gyfredol a nodir yn Rheoliadau Cydlafurio Rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008 a'r Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008, yn caniatáu i gyrff llywodraethu ysgolion a SAB weithio ar y cyd drwy sefydlu cydbwyllgorau. Fodd bynnag, rheoliadau galluogi yn unig yw'r rhain ac nid yw cyrff

llywodraethu'r ddau sefydliad wedi ymrwymo i sefydlu cydbwyllgorau os nad ydynt yn dymuno hynny.

7.4 Yn ôl yr awdurdodau lleol, nid ydynt yn ymwybodol fod ysgolion yn mynd ati'n rhagweithiol i ddefnyddio'r rheoliadau cydlafurio presennol i ffurfio cydbwyllgorau ag ysgolion eraill, gan archwilio dulliau o wneud y gorau o'r cyfleoedd a'r lles i ddysgwyr a allai ddeillio o gydweithio.

7.5 Mae cydlafurio ysgolion/SAB yn ogystal â rhywfaint o gydweithio ysgolion/ysgolion yn digwydd ar hyn o bryd i sicrhau bod cynifer o gyrsiau â phosibl ar gael yn y cwricwlwm lleol ar gyfer eu hardal fel sy'n ofynnol ym Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a'r Agenda Trawsnewid. Yn yr un modd, nod y polisi Trawsnewid yw darparu mwy o ddewisiadau i ddysgwyr, ac ar yr un pryd cael gwared ar unrhyw ddyblygu diangen yn y ddarpariaeth a gwella ansawdd dysgu ac addysgu. Mae hyn yn berthnasol i'r holl ddarpariaeth ôl-16. Nid yw'n bosibl i un darparwr wireddu'r amcanion hyn. Felly, disgwylir i ddarparwyr sefydlu trefniadau cydlafurio effeithiol fel sail i hawliau 14-19, gan sicrhau'r canlyniadau mwyaf llwyddiannus posibl i ddysgwyr.

7.6 Mae'r Gweinidog o'r farn fod angen i awdurdodau lleol, ysgolion a SAB wneud mwy i sicrhau bod cydlafurio'n fwy eang, ac yn canolbwyntio nid yn unig ar gyflenwi'r ddarpariaeth cwricwlwm, ond hefyd ar ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac effeithiol.

7.7 Er ein bod yn disgwyl i awdurdodau lleol annog cydlafurio, o dan y gyfraith gyfredol nid oes ganddynt y pwerau i gyflawni hynny, nac i ddod yn rhan o drefniadau cydlafurio cyrff llywodraethu ysgolion a SAB. Felly mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i annog cyrff llywodraethu ysgolion i gydweithio, a lle bo hynny'n briodol, i ymuno â threfniadau cydlafurio gyda'r cyrff hyn. Felly dylai awdurdodau lleol gael y pŵer i wneud hynny, yn enwedig pan mae'n debygol y bydd y dystiolaeth yn awgrymu y byddai gwneud hynny'n creu cyfleoedd i sicrhau arbedion, rhannu arfer gorau, codi safonau a gwella canlyniadau. Mae'r cynigion yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried a fyddai cydlafurio'n arwain at sicrhau defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o'u hadnoddau, ac os felly byddai dyletswydd arnynt i gydweithio i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r cynigion hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol ffurfio cydbwyllgorau gydag ysgolion a SAB, ac i ddod yn aelodau llawn o gydbwyllgorau.

7.8 Byddai gwneud dim felly'n golygu na fyddai gan awdurdodau lleol y dulliau sy'n ofynnol i sicrhau trefniadau cydlafurio gwell. Byddai'n syml yn caniatáu i'r sefyllfa bresennol ar gyfer cydlafurio anffurfiol i barhau a byddai'n atal Llywodraeth Cynulliad Cymru rhag sefydlu trefniadau cydlafurio cadarnach.

### *Ffedereiddio Ysgolion*

7.9 Mae Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Threfniadau Amrywiol (Cymru) 2010 wedi bod mewn grym ers Ebrill 2010. Mae'r rheoliadau'n galluogi hyd at bump o ysgolion i ffedereiddio o dan un corff llywodraethu trwy ddefnyddio'r broses a bennir yn y rheoliadau. Mae'r rheoliadau'n caniatáu

amrywiaeth eang o fathau o ffedereiddio heb unrhyw gyfyngiad ar gategorïau ysgolion. Mae hynny'n cynnwys ysgolion sy'n darparu ar gyfer grwpiau o wahanol oedrannau, clystyrau o ysgolion cynradd ac ysgolion ar draws ffiniau awdurdodau lleol (yn amodol ar gytundeb gan yr awdurdodau lleol perthnasol).

7.10 Mae'r oedi mewn sefydlu ffederasiynau yn digwydd yn rhannol oherwydd y broses y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ei dilyn i sefydlu ffederasiwn. Mae'r broses yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid, ac mae hynny'n cymryd amser. O drafod yn anffurfiol â chydweithwyr mewn awdurdodau lleol, mae swyddogion yn ymwybodol bod nifer o ysgolion ledled Gymru yn dechrau meddwl am ffedereiddio ac yn ystyried manteisio ar y cyfleoedd a gynigir ganddo.

7.11 Er mwyn cynorthwyo cyrff llywodraethu ysgolion a'u hannog i ffedereiddio, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sefydlu pum ffederasiwn peilot mewn gwahanol rannau o Gymru, sef, yn ôl pob golwg, yng Ngwynedd, Wrecsam, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Sir Gaerfyrddin. Bydd canlyniadau'r trefniadau peilot hyn yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol, gyda'r posibilrwydd o greu templed i bennu'r broses y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol eraill ei dilyn wrth ystyried ffedereiddio.

7.12 Yn Lloegr, mae ffedereiddio cyrff llywodraethu wedi dangos bod potensial i sicrhau arbedion o ran adnoddau i ysgolion, boed hynny drwy rannu'r cwricwlwm, staff ac arbenigedd staff, cyfleusterau, TGCh; cyfarpar a chyfleusterau chwaraeon ac o bosib gyllidebau. Gall rhannu'r asedau hyn a'r arfer gorau helpu pob ysgol i sicrhau addysg well i'w holl ddisgyblion. Byddai osgoi ailadrodd ymdrech ac adnoddau yn rhoi mwy o amser i benaethiaid a phroffesiynolion ar gyfer y busnes craidd o addysgu a dysgu a gwella safonau a chanlyniadau i ddysgwyr, yn hytrach na dyletswyddau gweinyddol neu reoli. Mae'r manteision eraill fyddai'n deillio o sefydlu corff llywodraethu ffederal yn cynnwys rhoi'r gallu i grwpiau o ysgolion gydgysylltu'r ddarpariaeth cwricwlwm neu'r strategaethau addysgu a dysgu a chreu rhaglen gydlynol leol, gan gynyddu nifer y cyfleoedd i fodloni anghenion dysgwyr ac ehangu hawliau dysgwyr i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth ar draws y ffederasiwn.

7.13 Gallai ffedereiddio cyrff llywodraethu hefyd gryfhau dulliau lywodraethu ysgolion a'r broses o recriwtio a chadw llywodraethwyr ysgolion. Er enghraifft, lle bydd corff llywodraethu'n ei chael hi'n anodd denu a chadw digon o lywodraethwyr, neu os nad oes gan lywodraethwyr y sgiliau i fod yn effeithiol, bydd ffedereiddio'r arwain at greu corff llywodraethu effeithiol lle na fydd angen cynifer o lywodraethwyr. Bydd awdurdodau lleol yn gallu canolbwyntio cymorth a hyfforddiant ar lai o gyrff llywodraethu a llywodraethwyr. Gallai ffedereiddio hefyd annog rhwydweithio rhwng ysgolion a gallai fod yn fanteisiol i glystyrau o ysgolion sy'n rhannu buddiannau, er enghraifft ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion crefyddol, ysgolion wedi'u lleoli yn ymyl ei gilydd, neu ysgolion â buddiant ar y cyd mewn trefniadau pontio cyfnodau allweddol.

7.14 Ond, o dan y gyfraith gyfredol, gellir creu’r cyfleoedd hyn dim ond pan fydd cyrff llywodraethu ysgolion yn dewis cynnig ffedereiddio ysgolion. Os nad yw ysgolion am gymryd mantais o'r darpariaethau presennol ni fyddent yn gallu bod yn rhan o’r manteision posibl sy’n deillio o fod yn rhan o ffederasiwn. Dyma pam bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ysgolion yn cael eu ffedereiddio, oherwydd y cyfleoedd sy’n deillio o hynny i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella canlyniadau i ddysgwyr.

7.15 Byddai gwneud dim yn caniatáu i'r sefyllfa gyfredol barhau ac yn atal Llywodraeth Cynulliad Cymru rhag rhoi trefniadau yn eu lle i hyrwyddo gweledigaeth Gweinidogion Cymru o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd er lles disgyblion a chymuned yr ysgol. Os na fydd y Mesur arfaethedig yn cael ei wneud, ni fyddai awdurdodau lleol yn cael y pŵer i sefydlu ffederasiynau ysgolion lle y byddai'n fanteisiol i wneud hynny a lle nad yw ysgolion yn cymryd mantais o'r cyfleoedd. Byddai hefyd yn llesteirio nod polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o helpu awdurdodau lleol i roi mwy o gymorth i ysgolion sydd â nifer fach o ddisgyblion. Byddai'r cynigion ffedereiddio ysgolion yn y Mesur arfaethedig yn caniatáu awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar y gwaith o ffedereiddio'r ysgolion bach hyn sydd â nifer fach o ddisgyblion a'u cynnwys mewn trefniadau ffedereiddio er mwyn elwa ar effeithlonrwydd a rhannu adnoddau, llywodraethwyr ac arbenigedd.

**Hyfforddiant Llywodraethwyr a Gwasanaeth Clercio**

7.16 O ran llywodraethu ysgolion, byddai gwneud dim yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i ymateb i'r argymhellion a wnaed yn Adroddiad 2009 y Pwyllgor Menter a Dysgu. Er bod yr Adroddiad yn pwysleisio'r gwaith rhagorol sydd eisoes yn cael ei wneud gan lywodraethwyr roedd hefyd yn tynnu sylw at rai meysydd lle'r oedd gwelliannau'n bosibl er mwyn gwneud llywodraethwyr yn fwy effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o gefnogaeth a chyngor i lywodraethwyr; yr achos o blaid hyfforddiant gorfodol mewn rhai meysydd penodol fel cynefino a hyfforddi cadeiryddion; a rôl y clerc a gwell darpariaeth o hyfforddiant i glercod.  Daeth Adroddiad y Pwyllgor hefyd i'r casgliad fod ansawdd gwaith y clercod mewn ysgolion yng Nghymru yn anghyson, ac nad oes dull cyson o gefnogi'r clercod na safonau nac ansawdd eu gwaith clercio.

7.17 O dan Adran 22 o DA 2002, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i lywodraethwyr, yn rhad ac am ddim, yn ôl yr hyn a ystyrir yn angenrheidiol, er mwyn galluogi llywodraethwyr i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol.  Nid yw'r ddeddfwriaeth yn pennu'r hyn ddylai cynnwys yr hyfforddiant fod, ac mae rhyddid gan awdurdodau lleol i ddewis pa hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu. Hefyd nid yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr gael eu hyfforddi fel rhan o'u rôl. Mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi llywodraethwyr yn fater gwirfoddol i lywodraethwyr.

7.18 Byddai gwneud dim yn rhoi rhwydd hynt i barhau â'r trefniadau ad hoc cyfredol o ran hyfforddiant llywodraethwyr. Ni fyddai unrhyw ddulliau o sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant penodol i grwpiau penodol o

lywodraethwyr, ac ni fyddai unrhyw ddull neu reolaeth safonol dros gynnwys ac ansawdd yr hyfforddiant gan y byddai awdurdodau lleol yn rhydd i ddarparu beth bynnag a ddymunent. Fodd bynnag mae'n bosibl y gellid diwygio'r rheoliadau presennol i'w gwneud yn ofynnol i rai llywodraethwyr penodol, fel llywodraethwyr newydd neu gadeiryddion, fynychu hyfforddiant.

7.19 O dan ddeddfwriaeth bresennol nid oes darpariaeth o ran hyfforddiant i glercod cyrff llywodraethu. Er nad yw clercod yn aelodau o gyrff llywodraethu, maent yn rhan o'u heffeithiolrwydd. Er nad yw'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu hyfforddiant penodol i glercod, canfu ymchwil a gynhaliwyd yn 2008 gan Ganolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil yn Abertawe (sefydliad a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) fod llawer o awdurdodau yn darparu'r hyfforddiant hwnnw. Fodd bynnag, nid ymddengys bod dull cydlynol o ddelio â chynnwys ac ansawdd y ddarpariaeth hyfforddi.

7.20 Ar hyn o bryd darperir clerc i gorff llywodraethu gan:

- yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth clercio i'w ysgolion drwy gytundeb lefel gwasanaeth - mae awdurdodau lleol yn codi tâl am y gwasanaeth hwn ond mae'n debygol y gellir adennill y costau o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol;
- cyrff llywodraethu'n penodi aelod o staff yr ysgol i fod yn glerc, neu
- cyrff llywodraethu'n penodi unrhyw un y dymunant ei benodi - y peth gorau fyddai cael rhywun sy'n gyn bennaeth ysgol neu'n gyn aelod o'r awdurdod lleol a fyddai'n meddu ar ddealltwriaeth ymarferol o'r byd addysg a chyfraith addysg. Ond, ysywaeth, gallai fod yn berson sy'n meddu ar ychydig iawn o'r wybodaeth berthnasol.

7.21 Mae casgliadau gwaith ymchwil  a wnaed gan Ganolfan Ymchwil a Hyfforddiant Llywodraethwyr Cymru Gyfan[2], yn awgrymu bod safon ac ansawdd gwaith clercod yn well pan yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan un o weithwyr yr awdurdod lleol, gan ei bod yn debygol fod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda o weithdrefnau a chyfraith sy'n ymwneud â chyrff llywodraethu ac maent yn gallu cynnig cyngor adeiladol.  Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith gyfredol yn pennu pwy all fod yn glerc i gorff llywodraethu ac mae rhyddid gan y cyrff llywodraethu i benodi pwy bynnag a ddymunant ar gyfer y rôl.

7.22 Byddai gwneud dim yn galluogi'r trefniadau cyfredol ar gyfer clercod i barhau, a byddai lefel y gwasanaeth a ddarperir i gyrff llywodraethu'n amrywiol ac yn annheg. Byddai cyrff llywodraethu sy'n cael eu gwasanaethu gan glerc sy'n gweithio i'r awdurdod lleol yn ei chael hi'n hawdd cael cyngor a chanllawiau o ansawdd uchel tra byddai eraill yn ei chael hi'n anodd.

7.23 Felly byddai gwneud dim mewn perthynas â hyfforddiant llywodraethwyr a chlercod yn atal Llywodraeth Cynulliad Cymru rhag gwneud newidiadau a gwelliannau a fyddai'n mynd i'r afael â gwendidau'r trefniadau clercio cyfredol

[2] Adroddiad 2005 ar Wasanaethau Clercio Cyrff Llywodraethol yng Nghymru gan Ganolfan Ymchwil a Hyfforddiant Cymru Gyfan

(fel y nodwyd gan y Pwyllgor Menter a Dysgu), er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaeth clercio mewn ysgolion yng Nghymru; ac yn ei hatal rhag gwneud newidiadau i wella effeithiolrwydd llywodraethwyr drwy gael gwell darpariaeth hyfforddiant.

**Ysgolion Sefydledig**

7.24 Byddai caniatáu i ysgolion newid categori i fod yn ysgolion sefydledig, neu ganiatáu i ysgolion sefydledig newydd gael eu creu, yn cymhlethu ymhellach y sefyllfa derbyn disgyblion yng Nghymru. Gallai rhagor o gymhlethdod hefyd amharu ar allu'r awdurdodau lleol i gynllunio lleoedd mewn ysgolion a buddsoddi cyfalaf, gan y byddai angen dulliau gweithredu mwy cwmpasog ac o bosibl fwy radical i sicrhau newidiadau mewn perthynas ag ysgolion sefydledig. Gallai fod anfantais i rai rhieni pe bai rhagor o ysgolion sefydledig yn cael eu creu, gan y gallai hynny arwain at broses dderbyn i ysgolion sy'n anoddach i'w deall, ac o bosibl byddai'r rhieni'n methu â sicrhau lle mewn ysgol gymunedol leol wrth iddynt geisio sicrhau lle mewn ysgol sefydledig. Yn y gorffennol, mae awdurdodau lleol wedi dweud bod bodolaeth ysgolion sefydledig wedi'i gwneud yn anodd olrhain gyrfa addysg disgyblion, yn enwedig pan fyddant yn trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, os nad yw'r rhieni'n dychwelyd ffurflen dewis ysgolion yr awdurdod lleol yn unol â'r gofyn. Er nad yw ysgolion sefydledig o reidrwydd yn cynyddu o ran maint, lle mae hynny wedi digwydd mae wedi arwain at lai o ddisgyblion yn cofrestru mewn ysgolion eraill. Gallai'r gostyngiad presennol yn nifer y disgyblion ysgol uwchradd arwain at sefyllfa lle nad yw'n ymarferol cynnal ysgolion llai o faint. Byddai hynny'n creu sefyllfa o orfodaeth i'r awdurdod lleol gan y byddent yn cael eu gorfodi i ad-drefnu mewn modd llai strategol nag a fyddent wedi dymuno'i wneud. Byddai'n well peidio â chaniatáu i'r fath sefyllfa godi os oes modd.

**Opsiwn 2: Cyflwyno mân newidiadau o dan y ddeddfwriaeth bresennol a hyrwyddo newidiadau eraill trwy ganllawiau a lledaenu arfer da.**

7.25 Yn gryno, byddai dewis yr 'opsiwn gwneud y lleiaf posibl' yn golygu'r canlynol:

- diwygio'r rheoliadau presennol i'w gwneud yn ofynnol i rai llywodraethwyr gael hyfforddiant cynefino pan ac os bydd yr awdurdodau lleol yn darparu'r hyfforddiant hwnnw;
- cyhoeddi canllawiau ar gynnwys yr hyfforddiant i lywodraethwyr a chlercod, gan roi gwybodaeth am fanteision cydlafurio a ffedereiddio. Serch hynny, ni fyddai'n ofynnol i awdurdodau lleol nac ysgolion ystyried y rhain;
- diwygio'r rheoliadau presennol i'w gwneud yn ofynnol i glercod gael hyfforddiant;
- mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi cydlafurio rhwng awdurdodau lleol, ond byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau o ran cydlafurio rhwng yr awdurdod lleol, ysgolion a SAB. Ni fyddai'n ofynnol i awdurdod lleol ystyried cydlafurio rhwng yr awdurdod lleol, ysgolion a SAB nac i sicrhau bod y cydlafurio hwn yn mynd rhagddo pan fydd

tystiolaeth y byddai cydlafurio'n arwain at ganlyniadau gwell i ddysgwyr a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ac effeithlon;

- parhau â'r sefyllfa bresennol lle mae cyrff llywodraethu ysgolion a SAB yn cael y rhyddid i ddewis a ydynt am gydweithio. Ni fyddai unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried cydlafurio ac ni fyddai modd i awdurdodau lleol fod yn rhan o gydbwyllgorau ysgolion a SAB.
- parhau â'r sefyllfa bresennol o ran ffedereiddio ysgolion, gyda chyrff llywodraethu ysgolion yn cael y rhyddid i ystyried ffedereiddio. Ni fyddai modd i awdurdodau lleol eu gorfodi i ffedereiddio.

7.26 Ni fyddai unrhyw un o'r pwyntiau hyn yn cyd-fynd yn llawn â bwriad polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y meysydd a nodir.

***<u>Cydlafurio</u>***

7.27 Mae'r gyfraith gyfredol yn adran 26 o DA 2006 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n galluogi dau neu fwy o gyrff llywodraethu ysgolion i gydweithio i gyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau, a hynny drwy sefydlu cydbwyllgorau. Mae adran 166 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau i alluogi cyrff llywodraethu ysgolion a SAB i gydweithio trwy sefydlu cydbwyllgorau. Rheoliadau galluogi yn unig yw'r ddwy set o reoliadau, sy'n golygu nad oes rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a SAB gydweithio os nad ydynt am wneud hynny.

7.28 Mae ysgolion a SAB hefyd yn cydlafurio mewn perthynas â'r Llwybrau Dysgu 14-19, yr Agenda Trawsnewid a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, sydd wedi'u llunio'n benodol i ddarparu'r cwricwlwm a'r cyrsiau sy'n rhoi cynifer â phosibl o gyfleoedd a dewisiadau i ddysgwyr.

7.29 Amcan polisi'r Mesur arfaethedig yw creu sail ffurfiol ar gyfer y trefniadau cydlafurio. Byddai hynny'n cael ei gyflawni trwy osod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion a SAB ac ar awdurdodau lleol i ystyried cydlafurio o bryd i'w gilydd wrth gyflawni eu swyddogaethau eraill. Os mai cred y cyrff llywodraethu perthnasol yw y byddai cydlafurio'n arwain at wella effeithiolrwydd a sicrhau arbedion, wedyn byddai dyletswydd ar y cyrff llywodraethu i gydweithio. Byddai rôl i awdurdodau lleol yn y trefniadau cydlafurio hyn trwy ganiatáu iddynt fod yn rhan o drefniadau'r cydbwyllgor.

7.30 Ni fyddai unrhyw gostau i awdurdodau lleol, ysgolion na SAB pe bai'r trefniadau presennol yn parhau.

***<u>Ffedereiddio Ysgolion</u>***

7.31 Rheoliadau galluogi yw'r Rheoliadau presennol, sef Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010, sy'n golygu nad oes raid i ysgolion ffedereiddio os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bu'r rheoliadau ar waith ers mis Ebrill 2010, ac er nad oes ysgolion yng Nghymru wedi ffedereiddio o dan un corff llywodraethu hyd yn hyn, rydym yn ymwybodol bod rhai ysgolion ledled Cymru yn ymchwilio i'r opsiynau a'r manteision sy'n gysylltiedig â ffedereiddio. Er mwyn helpu ysgolion ac

awdurdodau lleol gyda’r broses ffedereiddio, mae pum cynllun ffedereiddio peilot wedi cael eu sefydlu, sef yng Ngwynedd, Wrecsam, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Sir Gaerfyrddin.  Ar hyn o bryd felly, er bod tystiolaeth i'w chael o brofiad Lloegr ym maes ffedereiddio, a bod hynny'n gallu rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos i ni, nid yw’n bosibl gwybod o'n profiad ni ein hunain yn union pa mor llwyddiannus y byddai ffedereiddio cyrff llywodraethu yng Nghymru.

7.32 Byddai’r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol sicrhau bod ysgolion yn ffedereiddio fel y cynigir gan awdurdod lleol, corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ffederasiwn:

- ffederasiwn o ddwy neu ragor o ysgolion
- ffederasiwn o ddwy neu ragor o ysgolion bach
- ffederasiwn o un neu ragor o ysgolion bach ac un neu ragor o ysgolion a gynhelir (nad ydynt yn ysgolion bach), neu
- ffederasiwn o un neu ragor o ysgolion bach a ffederasiwn.

Mae pŵer gan Weinidogion Cymru i orchymyn bod ysgol sy’n destun pryder yn cael ei ffedereiddio.

7.33 Nid yw'n bosibl diwygio'r rheoliadau ffedereiddio presennol nac ychwaith ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol, mewn modd a fyddai'n sicrhau gweithredu'r cynnig i roi pŵer i awdurdodau lleol ffedereiddio ysgolion a’u cyrff llywodraethu.  Os na fydd y Mesur arfaethedig yn llwyddiannus, dim ond y cyrff llywodraethu sy'n gwirfoddoli i ffedereiddio a fyddai'n elwa ar y cyfleoedd a'r manteision sy'n debygol o ddod yn sgil ffedereiddio.

7.34 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r ysgolion a fyddai'n penderfynu ffedereiddio o dan y rheoliadau presennol; yn hytrach disgwylir y byddai arbedion o ran adnoddau. Fodd bynnag, gallai fod costau gweinyddol i awdurdodau lleol yn sgil cynnig a dilyn y broses ffedereiddio.

## ***Hyfforddi Llywodraethwyr***

7.35 Mae'r gyfraith gyfredol sy'n ymdrin â hyfforddi llywodraethwyr yn cael ei nodi yn adran 22 o DA 2002.  Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth a'r hyfforddiant priodol i lywodraethwyr allu cyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol.  Nid oes darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu pa bynciau y dylid eu cynnwys yn yr hyfforddiant, pa mor aml y dylid ei ddarparu nac ychwaith fanylion cynnwys yr hyfforddiant hwnnw. Nid yw hyfforddiant i lywodraethwyr yn orfodol. Nid oes unrhyw ddeddf ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr o unrhyw gategori gael hyfforddiant - maent yn gwneud hynny o'u gwirfodd.

7.36 Yn y sefyllfa sydd ohoni nid yw'r ddarpariaeth hyfforddiant i lywodraethwyr, ei hamlder na'i chynnwys yn cael eu rheoli mewn unrhyw ffordd ond yn hytrach yn digwydd yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol unigol. Mae rhai awdurdodau lleol yn dechrau gweithio gyda'i gilydd trwy drefniadau consortia i ddarparu hyfforddiant o'r fath i gynulleidfa ehangach na'u llywodraethwyr eu hunain, ond nid oes unrhyw strategaeth na dull gweithredu cydlynol ar waith i safoni'r ddarpariaeth ac ansawdd yr hyfforddiant ledled Cymru. Oherwydd y cyfyngiadau o dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes ychwaith unrhyw fecanwaith yn ei le i ganiatáu gwneud newidiadau.

7.37 Mae rhanddeiliaid fel Llywodraethwyr Cymru a rhai o undebau'r athrawon wedi cydnabod ers amser bod angen rhywfaint o hyfforddiant gorfodol ar faterion pwysig fel cynefino neu weithdrefnau disgyblu staff. Maent felly wedi cefnogi'r syniad o hyfforddiant gorfodol ac wedi ymgyrchu o blaid ei gyflwyno.

7.38 O dan y ddeddfwriaeth bresennol, ni cheir gwneud mwy na gwneud rheoliadau i sicrhau ei bod yn ofynnol i bob llywodraethwr newydd gael hyfforddiant cynefino a hefyd sicrhau ei bod yn ofynnol i bob llywodraethwr gael hyfforddiant ar ddefnyddio data. Ceir hefyd diwygio'r un rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gadeiryddion cyrff llywodraethu gael hyfforddiant penodol.

7.39 Fodd bynnag, byddai sefyllfa lle na fyddai gan Weinidogion Cymru unrhyw reolaeth dros gynnwys nac ansawdd yr hyfforddiant a ddarperid yn parhau. Hefyd mae'n cael ei dderbyn nad oes dull gweithredu cyson ar waith o ran darparu hyfforddiant i lywodraethwyr ledled Cymru, o dan y trefniadau presennol. Mae rhyddid gan awdurdodau lleol i bennu'r pynciau i'w cynnwys yn yr hyfforddiant a gynigir ganddynt a hefyd gynnwys yr hyfforddiant hwnnw. Dylai llywodraethwyr ym mhob rhan o Gymru allu fanteisio ar hyfforddiant o ansawdd uchel. Dylai fod yn bosibl gweithredu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr yng Nghymru sy'n cynnig safonau gofynnol o ran ansawdd a chynnwys. Serch hynny, o dan y trefniadau presennol gyda'r awdurdodau lleol yn cael penderfynu ar y mater hwn, nid yw'n bosibl cyflawni hyn.

7.40 Byddai'n bosibl i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol i awgrymu cynnwys yr hyfforddiant y maent yn ei gynnig, ond ni fyddai'r canllawiau'n orfodol, ac er bod disgwyl i awdurdodau lleol eu hystyried ni fyddai'n rhaid iddynt gadw at y canllawiau hynny.

7.41 Ni fyddai unrhyw gostau adnoddau i'r ysgolion na'r awdurdodau lleol pe defnyddid y pwerau presennol y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.38. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i lywodraethwyr neilltuo mwy o amser pe bai'n ofynnol iddynt gael hyfforddiant.

***Gwasanaeth Clercio***

7.42 Mae adran 23 o DA 2002 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i benodi clercod i wasanaethu cyrff llywodraethu; gan bennu pwy sy'n cael gwneud y penodiad; unrhyw gyfyngiadau ar bwy y gellid ei benodi; a'r broses ar gyfer diswyddo clerc.

Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu benodi llywodraethwr i weithredu fel clerc os na fydd y clerc arferol yn bresennol. O dan y rheolau presennol, ni cheir chaiff pennaeth ysgol nac aelod nad yw'n llywodraethwr fod yn glerc; nac ychwaith lywodraethwr (oni bai fod y clerc arferol ddim yn bresennol mewn cyfarfod). Mae'r manylion hyn yn cael eu nodi yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

7.43 Er mwyn rhoi sylw i'r pryderon a godir gan y Pwyllgor Menter a Dysgu ynghylch ansawdd gwasanaeth clercio mewn ysgolion ledled Cymru a'r diffyg cysondeb yn gyffredinol o ran y gefnogaeth a roddir i glercod, mae swyddogion polisi o'r farn mai'r nod yn y tymor canolig a'r tymor hir yw sicrhau bod clercod yn cael eu hyfforddi'n briodol. Gellir cyflawni hyn trwy ddiwygio rheoliadau Llywodraethu Ysgolion 2005, sef y rheoliadau sydd ar waith ar hyn o bryd. Byddai'r diwygiadau'n ei gwneud yn ofynnol i glercod fynychu hyfforddiant ac yn pennu pwy y gellir ei benodi a phwy na ellir ei benodi'n glerc. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaeth o dan y gyfraith gyfredol sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig hyfforddiant sy’n benodol ar gyfer clercod.

7.44 Felly er y gellid gwneud rhai newidiadau i'r rheoliadau presennol i sicrhau bod clercod yn cael eu hyfforddi'n briodol, nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn mynd yn ddigon pell i ganiatáu gweithredu newidiadau a fyddai ym marn Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod safonau gwasanaethau clercod yn codi i'r safonau priodol. Ni fyddai'n bosibl diwygio rheoliadau Llywodraethu Ysgolion 2005 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig hyfforddiant sy'n benodol ar gyfer clercod na'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig gwasanaeth clercio i'w ysgolion.

**Ysgolion Sefydledig**

7.45 Dim ond trwy ddeddfu y gellir gwireddu'r cynnig i atal rhagor o ysgolion rhag newid categori i fod yn ysgolion sefydledig ac atal rhagor o ysgolion sefydledig rhag cael eu creu. Neu, gellid diwygio canllawiau ar drefniadaeth ysgolion i osod meini prawf rhesymol y byddai’n rhaid i gynigion ar newid categori i fod yn ysgol sefydledig (a newidiadau eraill o ran categori) eu bodloni, cyn y gellid disgwyl iddynt gael eu cymeradwyo. Gallai’r meini prawf gynnwys y disgwyl y byddai’n rhaid i hyrwyddwyr ddangos pa fanteision fyddai’n deillio o’r cynnig, a hefyd y byddai’n rhesymol i Weinidogion Cymru ystyried a yw’r awdurdod lleol perthnasol (a’r awdurdod esgobaethol fel y bo’n briodol) yn cefnogi’r newid. Mae'r egwyddor ehangach o beidio â chymhlethu'r system dderbyn bresennol ymhellach, ac o sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael mwy o reolaeth ar y broses dderbyn, wedi'i hen sefydlu, ac mae'n debygol y byddai unrhyw bolisïau yn y dyfodol o ran trefniadaeth a derbyniadau ysgolion yn cael eu datblygu yng ngoleuni'r egwyddor honno.

7.46 Ni fyddai diwygio’r canllawiau yn y fath fodd yn cael gwared yn llwyr ar y posibilrwydd y gellid newid categori i fod yn sefydledig, a byddai’n rhaid ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod. Pe bai cynnig yn dangos manteision amlwg a bod yr awdurdod lleol yn ei gefnogi, byddai disgwyl rhesymol iddo gael ei gymeradwyo.

**Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad.**

7.47 Byddai'r opsiwn hwn yn gwireddu'r amcanion polisi a nodir yn adran 1.

*Cydlafurio*

7.48 Byddai dewis yr opsiwn i gyflwyno Mesur Cynulliad ar gydweithio yn golygu'r canlynol:

- byddai'n bosibl sicrhau arbedion effeithlonrwydd trwy gydweithio i rannu adnoddau ac arfer gorau; rhannu cyfleusterau a Thechnoleg Gwybodaeth; a rhannu staff a sgiliau staff etc;
- byddai dyletswydd ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a SAB i ystyried cydlafurio, ac os gwelir y byddai hynny'n helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon, byddai dyletswydd arnynt i gydweithio;
- byddai'n bosibl i awdurdodau lleol fod yn gyfranogwyr neu'n bartneriaid ffurfiol yn nhrefniadau cyd-bwyllgorau cydlafurio rhwng ysgolion a SAB;
- byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyhoeddi cyfarwyddyd.

7.49 O ran ffedereiddio cyrff llywodraethu

- byddai gan awdurdodau lleol y pwerau i sefydlu ffederasiynau o ysgolion;
- o ran ysgol sy'n destun pryder, byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i orchymyn awdurdod lleol, neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ffederasiwn, i gynnig ffederasiwn;
- byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer hefyd i gyflwyno cyfarwyddyd statudol.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Bwyllgor Deddfwriaeth 5, wrth graffu ar y Mesur arfaethedig, gwnaed diwygiadau i'r darpariaethau ar gyfer ffedereiddio, a hynny mewn perthynas ag awdurdodau lleol yn ymgynghori ar gynigion i ffedereiddio. Ac eithrio o ran ysgolion a ddiffinnir fel ysgolion 'bach', mae'r newidiadau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori ynghylch eu cynigion â'r canlynol:

- cyrff llywodraethu'r ysgolion neu'r ffederasiynau sy'n cael eu ffedereiddio;
- staff yr ysgolion;
- un neu fwy o gyrff (os oes rhai) y mae'n ymddangos i'r awdurdod eu bod yn cynrychioli buddiannau staff yr ysgolion (byddai hynny'n cynnwys undebau); a
- disgyblion sydd wedi cofrestru a'u rhieni.

Lle bydd awdurdod lleol yn ystyried ffedereiddio ysgolion bach a gynhelir, sydd wedi'u diffinio gan Orchymyn a wnaed o dan y Mesur arfaethedig, cyrff llywodraethu'r ysgolion bach hynny yw'r unig rai y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ymgynghori â nhw, a hynny yn unol ag unrhyw reoliadau a wnaed. Hefyd, cafodd diwygiad pellach ei wneud sy'n golygu nad oes rhaid cadw at y

gofyniad ar awdurdodau lleol i gyhoeddi cynigion ffedereiddio mewn perthynas ag ysgolion bach. Yn ymarferol, byddai'n rhaid i awdurdod lleol ysgrifennu ynghylch ei gynigion at yr ysgolion y mae'n ystyried eu ffedereiddio. Fodd bynnag, ni fyddai dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gyhoeddi'r cynigion hynny er mwyn i unigolion, ac eithrio'r corff llywodraethu, roi eu sylwadau arnynt, oni bai bod yr awdurdod yn dymuno gwneud hynny. Mae'r gwahaniaeth o ran dull gweithredu yn wahaniaeth penodol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i'w sicrhau er mwyn gwneud y broses o ffedereiddio ysgolion bach yn symlach. Mae'r diwygiadau a wnaed yn ystod Cam 2 yn sicrhau cydbwysedd rhwng y ddadl y dylai'r Mesur gael dulliau o ddiogelu'r broses ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, a'r angen i gynnal dull gweithredu llai llawdrwm mewn perthynas ag ysgolion bach.

Mae adran newydd 15A yn diwygio adran 14(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gan ychwanegu adran newydd, sef 18B, ati. O dan y darpariaethau hyn, byddai Gweinidogion Cymru yn cael gorchymyn i ysgolion ffedereiddio, a hynny o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae ysgol yn achosi pryder ac yn destun mesurau arbennig neu mae gofyn iddi wella'n sylweddol (cyn belled nad yw archwiliad dilynol wedi dweud nad oes gofyn bellach ar yr ysgol i wella'n sylweddol ac nad yw bellach yn destun mesurau arbennig);
- mae safonau perfformiad y disgyblion yn annerbyniol o isel ac maen nhw'n debygol o barhau felly;
- mae'r trefniadau ar gyfer rheoli neu lywodraethu'r ysgol wedi torri i lawr yn ddifrifol, a hynny mewn ffordd sy'n effeithio ar safonau perfformiad neu sy'n debygol o effeithio arnynt.
- mae diogelwch disgyblion a staff yn y fantol;
- nid yw'r corff llywodraethu wedi cydymffurfio â gorchmynion sy'n ymwneud â thâl ac amodau athrawon; neu
- nid yw wedi sicrhau bod pennaeth yr ysgol wedi cydymffurfio â gorchmynion o'r fath.

Mae'r diwygiad hwn yn ehangu pwerau gorchymyn Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn bosibl ffedereiddio unrhyw ysgol a gynhelir ac nid ysgolion bach yn unig.

*Llywodraethu*

7.50 O ran llywodraethu ysgolion, byddai cyflwyno Mesur yn:

- ymateb i'r pryderon a'r argymhellion a nodir yn adroddiad 2009 y Pwyllgor Menter a Dysgu ar rôl llywodraethwyr ysgol a'r cyfle i godi safonau effeithiolrwydd cyrff llywodraethu:
- darparu ffordd o gyflwyno hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr - yn y lle cyntaf bwriedir i hyn fod yn hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr newydd, hyfforddiant i gadeiryddion cyrff llywodraethu a hyfforddiant i bob llywodraethwr ar ddefnyddio data;
- byddai'n orfodol i lywodraethwyr fynychu'r hyfforddiant hwnnw;

- byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i bennu ei gynnwys;
- byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig gwasanaeth clercio i'r holl ysgolion a gynhelir ganddynt.

Ysgolion Sefydledig

7.51 Yn olaf, er mwyn atal rhagor o ysgolion rhag troi’n ysgolion sefydledig neu atal ysgolion sefydledig rhag cael eu creu, rhaid newid y ddeddfwriaeth ar gategoreiddio ysgolion ac ar sefydlu ysgolion i sicrhau nad oes modd creu ysgolion sefydledig yn y dyfodol. Gellid mabwysiadu polisi trefniadaeth ysgolion i greu meini prawf penodol i Weinidogion Cymru eu hystyried wrth benderfynu ar gais oddi wrth ysgol sy’n bodoli eisoes sydd am newid i gategori arall o ysgol, neu unrhyw newid categori arall. Serch hynny, y Mesur arfaethedig fyddai’r opsiwn mwyaf tebygol o sicrhau’r meini prawf hyn.

*Mân Ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol i’r Mesur Arfaethedig*

Gwnaed nifer o fân ddiwygiadau sy’n cael eu nodi yn adran 19 o’r Mesur arfaethedig. Maent yn diwygio Deddf Addysg 2002 fel a ganlyn:

- Mae adran 19 o Ddeddf 2002 yn ymwneud â’r gofyniad sy’n dweud bod yn rhaid i bob ysgol a gynhelir sicrhau bod ganddi gorff llywodraethu sydd wedi’i gyfansoddi’n briodol. Mae’n nodi ymhlith pethau eraill yr hyn sydd o fewn cwmpas y rheoliadau. Bydd isadran 9 o fewn adran 19 yn cael ei hychwanegu i nodi bod y darpariaethau yn adran 19 hefyd yn berthnasol i gyrff llywodraethu ffederasiynau o fewn ystyr adran 20 o’r Mesur arfaethedig hwn.

- Bydd isadran newydd 4A yn cael ei hychwanegu at adran 20 o Ddeddf Addysg 2002 i nodi bod y cyfeiriadau at offerynnau llywodraeth yn adran 20 o’r Ddeddf yn cynnwys offerynnau llywodraeth a wnaed ar gyfer ysgolion sydd wedi ffedereiddio o dan ddarpariaethau yn y Mesur arfaethedig.

- Diwygiwyd paragraff 5 yn Atodlen 1 o Ddeddf Addysg 2002 er mwyn ei gwneud yn glir nad yw corff llywodraethu ffederasiwn yn cael ei ddiddymu’n awtomatig os bydd un neu fwy o ysgolion mewn ffederasiwn yn cau.

- Diwygiadau canlyniadol yw’r diwygiadau i adran 24 ac adran 39. Felly ar ôl pasio’r Mesur bydd yr adrannau hynny’n berthnasol i ysgolion yn Lloegr yn unig.

## 8. Costau a manteision

Opsiwn 1: Gwneud dim.

*Cydlafurio*

8.1 Bydd dewis yr opsiwn 'gwneud dim' yn sicrhau na fydd unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol, ysgolion a SAB wrth ystyried a ddylent gydweithio, gan mai rheoliadau galluogi yw'r rheoliadau presennol. Byddai'r cydlafurio anffurfiol rhwng uwch weithredwyr ysgolion a SAB hefyd yn parhau heb unrhyw gostau ychwanegol. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion os bydd y cynigion galluogi presennol ar gydweithio yn parhau.

8.2 Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai gwneud dim hefyd yn golygu na fyddai ysgolion a SAB yn cael y cyfle i ddod o hyd i arbedion posibl trwy gydweithio â chyrff llywodraethu eraill ac ymchwilio i'r holl amrediad o fanteision y gellid elwa arnynt o gydweithio â'i gilydd.

*Ffedereiddio*

8.3 Rheoliadau galluogi yw'r rheoliadau ffedereiddio presennol sy'n golygu bod ysgolion yn cael dewis a ydynt am ffedereiddio o dan un corff llywodraethu ai peidio. Byddai gwneud dim yn golygu y byddai'r sefyllfa hon yn parhau heb unrhyw gostau ychwanegol i ysgolion. Fodd bynnag, os bydd ysgolion yn dewis peidio â ffedereiddio, gallai hynny arwain at golli'r cyfle i wneud arbedion yn sgil peidio â manteisio ar ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon fel sy'n digwydd pan fydd un corff llywodraethu'n gweithredu o bersbectif cyffredinol ehangach.

*Llywodraethu*
8.4 Byddai gwneud dim yn golygu na ellid gweithredu'r newid sylweddol sydd ei angen i wella safonau llywodraethu ysgolion. Un o ddibenion y Mesur arfaethedig yw gwella gallu ac effeithiolrwydd llywodraethwyr a chodi ansawdd y gwasanaeth clercio. Gyda'i gilydd, dylai'r newidiadau hyn godi safonau llywodraethu ysgolion a gwella perfformiad ysgolion. O wneud dim, ni fyddai unrhyw gostau i awdurdodau lleol nac i ysgolion.

*Ysgolion Sefydledig*
8.5 O ran ysgolion sefydledig, trwy beidio ag atal ysgolion sefydledig rhag cael eu sefydlu, neu beidio ag atal ysgolion rhag newid i'r categori hwn, byddai systemau derbyn yn cael eu cymhlethu ymhellach. Gallai unrhyw beth sy'n amharu ar allu awdurdodau lleol i reoli lleoedd ysgolion arwain at strwythur trefniadaeth ysgolion sy'n llai effeithlon ac yn costio mwy.

8.6 Gallai'r opsiwn "gwneud dim" arwain at gostau pe bai ysgolion yn cyflwyno cynigion i newid categori. Mae costau i ysgolion o ran ymgynghori a chyhoeddi hysbysiadau o ran newid categori ac mae disgwyl rhesymol y byddai'r costau hyn yn cael eu talu o gyllidebau ysgolion. Mae'n anodd rhoi

amcangyfrif realistig o gostau o’r fath. Nid fyddant yn debygol o fod yn fawr, a £1,000 fyddai’r uchafswm tebygol.

8.7 Prin iawn fu’r cynigion ar gyfer newid categori i fod yn ysgol sefydledig (2 yn y ddegawd ddiwethaf) ond gallai’r nifer gynyddu, ac mae arwyddion cynnar bod dwy ysgol arall am ddilyn y trywydd hwn.

8.8 Amcangyfrifir mai oddeutu £10,000 fyddai’r gost o benderfynu ar gynnig unigol o ran amser staff Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ddefnyddio’r costau band a ragwelir ar gyfer 2010/2011.

**Opsiwn 2: Cyflwyno mân newidiadau o dan y ddeddfwriaeth bresennol a hyrwyddo newidiadau eraill trwy ganllawiau a lledaenu arfer da.**

8.9 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r costau a'r arbedion disgwyliedig sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2 ac mae'r testun isod yn rhoi rhagor o wybodaeth lle bo angen.

| Adran | Costau | Arbedion |
|---|---|---|
| Cydlafurio – ysgolion a SAB | Costau’n bosibl mewn perthynas â chlercio cyd-bwyllgorau yn amrywio o £450 i £2,000 y flwyddyn | Arbedion effeithlonrwydd o ddefnyddio staff ac adnoddau mewn modd hyblyg |
| Ffedereiddio | Costau gweinyddol i awdurdodau lleol o ran gweinyddu a phrosesu ffederasiynau a sefydlir gan gyrff llywodraethu | Arbedion gweinyddol yn sgil cael llai o lywodraethwyr<br><br>Arbedion effeithlonrwydd o ddefnyddio staff ac adnoddau mewn modd hyblyg. |
| Gwasanaeth clercio | Byddai’r sefyllfa bresennol yn parhau. Byddai’r ysgolion sy’n cyflogi eu clerc eu hunain yn parhau i dalu amdano. Byddai ysgolion sy’n | |

| | | |
|---|---|---|
| | defnyddio clerc awdurdod lleol, lle cynigir y gwasanaeth hwn, yn parhau i dalu trwy gytundeb lefel gwasanaeth â'r clerc. | |
| Hyfforddi Llywodraethwyr | Dim costau ychwanegol – eisoes yn cael cymorth trwy'r Grant Cynnal Refeniw | |
| Ysgolion Sefydledig | Cost cynhyrchu canllawiau – lleiafswm o £1000<br>Y costau presennol o ran gweinyddu cynigion ar newid categori yn parhau – sef amcangyfrif o £10,000. | |

*Cydlafurio a Chlercio Cyd-bwyllgorau*
8.10 Gallai fod rhai costau i awdurdodau lleol, ysgolion neu SAB pe bai'r trefniadau galluogi cydlafurio presennol yn parhau. Byddai ysgolion a SAB yn parhau i gael y rhyddid i ddewis p'un a ddylid sefydlu cydbwyllgorau. Pe baent yn gwneud hynny, byddai'n rhaid i'r pwyllgorau gael eu clercio. Gellir amcangyfrif y gost o glercio'r cyd-bwyllgorau cydlafurio hyn drwy ddefnyddio'r gost gyfredol a godir gan awdurdodau lleol ar gyfer darparu gwasanaeth clercio i gyrff llywodraethu ysgolion. Mae'r costau hyn yn amrywio ymhob un o'r awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaeth clercio ar hyn o bryd. Mae'r costau'n amrywio o £450 i £2,000 yr ysgol y flwyddyn ar gyfer darparu clerc i fynychu'r tri chyfarfod tymhorol o'r corff llywodraethu, paratoi'r papurau a'r agendâu, cadw'r cofnodion, cynnig cyngor ad hoc ac ymdrin â gohebiaeth. Rhagwelwn pe bai swyddog awdurdod lleol hefyd yn clercio cydbwyllgor y byddai hynny'n golygu cynnydd cymharol fach i'r costau cytundeb lefel gwasanaeth cyfredol. Ar y llaw arall, gallai ysgolion a SAB benodi eu clercod eu hunain drwy drefniant preifat (gweler paragraff 8.24 (a) a (b) am esboniad o 'drefniadau preifat').

*Ffedereiddio*

8.11 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i ysgolion sy'n penderfynu ffedereiddio o dan y rheoliadau ffedereiddio presennol, yn hytrach disgwylir sicrhau arbedion o ran adnoddau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai rhai costau staff a gweinyddol i awdurdodau yn sgil cefnogi a chynorthwyo ysgolion trwy'r broses ffedereiddio. Byddai'r union gostau'n dibynnu ar gyflogau staff yr awdurdodau lleol a'r amser y byddai'n ei gymryd i gyflawni'r gwaith gweinyddol i gefnogi'r ysgolion.

*Llywodraethu*
8.12 Ni fyddai unrhyw gostau adnoddau i ysgolion nac awdurdodau lleol pe bai'r rheoliadau presennol yn cael eu diwygio i'w gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr a chadeiryddion newydd gael hyfforddiant penodol ac i bob llywodraethwr gael hyfforddiant ar ddefnyddio data, gan fod awdurdodau lleol yn cael arian i ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr trwy'r Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i lywodraethwyr neilltuo rhagor o amser pe bai'n ofynnol iddynt fynychu hyfforddiant.

*Ysgolion Sefydledig*
8.13 Gellid nodi yn y canllawiau y materion hynny y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer newid categori ysgolion, gan gynnwys newid i fod yn ysgol sefydledig. Mae bob amser yn bosibl y gellid herio penderfyniad Gweinidogion Cymru ar achos penodol trwy ofyn am adolygiad barnwrol, er y byddai'r risg y byddai hynny'n llwyddiannus yn llai lle byddai'r Gweinidogion wedi gwneud eu penderfyniad yn unol â'r canllawiau. Wrth gwrs byddai'n rhaid i ni sicrhau bod y canllawiau eu hunain yn gyfreithlon. Byddai costau i Lywodraeth Cynulliad Cymru pe bai'n cynhyrchu ac yn dosbarthu canllawiau diwygiedig. Pe bai'r cynigion ar ysgolion presennol yn newid categori i fod yn ysgolion sefydledig neu ar greu ysgolion sefydledig newydd yn parhau i gael eu cyflwyno, byddai'n rhaid i'r broses ddrud hon, lle mae angen i Weinidogion wneud penderfyniadau, hefyd barhau.

8.14 Pe dewisid yr opsiwn ar gyfer gwneud y newidiadau lleiaf posibl byddai'n rhaid gwneud mân ddiwygiad i'r canllawiau presennol sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer awdurdodau lleol ac eraill mewn perthynas â chynigion statudol. Lleiafswm o £1000 fyddai costau gweinyddol yr opsiwn hwn o ran amser y staff. Amcangyfrifir y swm hwn ar yr un sail â'r opsiwn gwneud dim.

**Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad**

8.15 Disgwylir mai'r rhannau o'r Mesur sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion yw'r prif faes a allai arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau lleol ac ysgolion. Disgwylir i'r costau hyn gael eu talu o gyllidebau presennol yr awdurdodau lleol a'r ysgolion. Mae rhywfaint o botensial i sicrhau arbedion yn sgil addasu swyddogaethau gweinyddol.

8.16 Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad sy'n nodi lle y gellid disgwyl costau ac arbedion. Rhoddir rhagor o fanylion yn y testun isod.

| **Adran** | **Costau** | **Arbedion** |
| --- | --- | --- |
| Cydlafurio | Nid oes unrhyw gostau gorfodol. Os bydd cyrff addysg yn dewis sefydlu cyd-bwyllgorau, gallai fod angen talu costau cyflog clerc (gan ddibynnu ar sut maent yn dewis clerc i'r pwyllgor), ynghyd â mân gostau gweinyddol. Mae awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaeth clercio i gyrff llywodraethu ysgolion yn codi rhwng £450 a £2,000 yr ysgol bob blwyddyn - Gweler paragraff 8.10 yn y ME hwn. Felly rydym yn rhagweld y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn llawer llai na'r costau cyfredol os bydd cyrff addysg yn dewis cael unigolyn o'r awdurdod lleol i wneud y gwaith clercio. | Mae adroddiad PwC yn nodi nifer o effeithiau posibl – bydd yr hyn sy'n digwydd yn dibynnu ar i ba raddau y mae cyrff addysg yn cydlafurio ac ar sut maent yn gwneud hynny. Mae PwC yn amcangyfrif y gallai ysgolion arbed 5-10% ar sylfaen o gostau gwerth £156m (h.y. £7.5m - £15m), trwy wella cymorth addysg yn sgil cydlafurio. Bydd y Mesur hefyd yn helpu i hyrwyddo cydlafurio rhwng awdurdodau lleol, a dylai hynny arwain at fwy o ddarparu gwasanaethau ar y cyd. Mae PwC wedi amcangyfrif bod posibilrwydd o arbed 5-10% o'r £562m, os gellir darparu mwy o gymorth addysg trwy gonsortia rhanbarthol. Yn drydydd, gallai integreiddio gwasanaeth addysg awdurdodau lleol a swyddogaethau cymorth AB arwain at arbedion posibl o 10-15% ar sylfaen o gostau gwerth £284m. |

| | | |
|---|---|---|
| Ffedereiddio | Byddai costau cyflogau a chostau gweinyddol i awdurdodau lleol os penderfynant sefydlu cyrff llywodraethu ffederal gan y byddai angen gwneud gwaith i lunio a gweithredu'r cynigion. Byddai'r gost yn dibynnu ar raddfa gyflog yr aelod staff a'r amser a gymerir i gyflawni'r cymorth gweinyddol. Fodd bynnag, rhagwelir y gall awdurdodau arbed ar gostau cynigion statudol i ad-drefnu ysgolion os dewisir ffedereiddio. | Po fwyaf poblogaidd y daw ffedereiddio y mwyaf o arbedion gweinyddol fyddai i awdurdodau lleol oherwydd byddai llai o lywodraethwyr a chyrff llywodraethu i'w cynnal. Byddai ffedereiddio'n lleihau costau hyfforddi llywodraethwyr. Gallai hefyd arwain at lai o benaethiaid, gan y byddai ysgolion ffederal yn rhoi timau arwain unedig yn eu lle, a fyddai hefyd yn arbed arian.<br><br>Ar lefel ysgol, yn ôl profiad ysgolion yn Lloegr mae arbedion yn deillio o'r defnydd hyblyg o staff ac adnoddau.<br><br>. |
| Gwasanaeth clercio | Gellid adennill unrhyw gostau i awdurdodau lleol yn sgil darparu clercod hyfforddedig i gyrff llywodraethu o gyllidebau'r ysgolion hynny sy'n dewis manteisio ar y | Byddai posibilrwydd o berfformiad gwell gan gyrff llywodraethu. Dylai gwasanaeth clercio gyda chlercod sydd wedi'u hyfforddi wella effeithlonrwydd cyrff llywodraethu a chanolbwyntio sylw ar faterion pwysig. Byddai hyn yn eu harwain at ganolbwyntio ar y materion craidd fel codi safonau a defnydd gwell o adnoddau. |

| | | |
|---|---|---|
| | cynnig. Mae potensial i awdurdodau lleol weithio mewn consortia neu rannu'r gwaith clercio. Byddai hynny'n gwneud defnydd da o'r awdurdodau hynny sy'n gryf o ran clercio cyrff llywodraethwyr, a dylai sicrhau effeithlonrwydd drwy ehangu'r sylfaen costau. | |
| Hyfforddi Llywodraethwyr | Dim costau ychwanegol i awdurdodau lleol gan fod hyfforddiant eisoes yn cael cymorth trwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mae hefyd potensial i gydweithio i ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr. Os yw ffedereiddio'n dod yn boblogaidd bydd nifer y llywodraethwyr yn gostwng ac felly'r gost hefyd yn lleihau. | Dylai llywodraethwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda wella safonau llywodraethu. Dylai hyn arwain at godi safonau mewn ysgolion a gwella'r defnydd o effeithlonrwydd adnoddau. |
| Atal ysgolion sefydledig newydd rhag cael eu creu neu atal ysgolion rhag newid categori i fod yn ysgolion sefydledig | Mae'n bosibl mai £1000 fyddai'r gost i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran | Amcangyfrifir y byddai arbedion gwerth £10,000 i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran costau gweinyddol penderfynu ar gynigion. Cynnal yr effeithlonrwydd presennol ar |

| | | |
|---|---|---|
| | cynhyrchu canllawiau | lefel awdurdod lleol. |

***Cydlafurio***

8.17 Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi dyletswydd ar ysgolion a SAB i ystyried cydlafurio, ac os gwelir y byddai hynny'n arwain at ddefnyddio adnoddau cyhoeddus yn fwy effeithiol ac effeithlon, byddai'r sefydliadau hynny o dan ddyletswydd i gydweithio. Byddai'r Mesur arfaethedig hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol ddod yn aelodau llawn o unrhyw gydbwyllgorau ysgolion/ysgolion neu ysgolion/SAB, gan feddu ar yr un hawliau, gan gynnwys hawliau pleidleisio, â'r ysgolion a'r SAB.

8.18 Mae hyn yn adeiladu ar ac yn ymestyn y ddeddfwriaeth galluogi bresennol sydd yn Rheoliadau Cydlafurio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008 a Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008 sy'n caniatáu i gyrff llywodraethu ysgolion ffurfio cyd-bwyllgorau â chyrff llywodraethu ysgolion eraill ac i gyrff llywodraethu ysgolion a SAB ffurfio cyd-bwyllgorau.

8.19 Mae cydlafurio rhwng ysgolion a rhwng ysgolion uwchradd a SAB o dan y rheoliadau presennol yn hyblyg ac mae'n gallu digwydd yn ôl y gofyn er mwyn cyflawni'r amcan/gorchwyl a osodwyd. Nid yw'n ofynnol o dan y gyfraith i gydbwyllgor gyfarfod yn yr un modd ag y mae'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol gyfarfod o leiaf unwaith y tymor.

8.20 Yn yr un modd, mae'n amhosibl meintioli'r cydlafurio (neu gydweithredu) anffurfiol sy'n digwydd rhwng staff ysgolion a SAB gan fod hynny'n digwydd yn ôl yr angen er mwyn sicrhau canlyniad.

8.21 Gan nad yw'r rheoliadau presennol na'r mesur arfaethedig yn pennu natur y cydlafurio, nid yw'n bosibl dweud beth fydd cost gweithredu trefniadau cydlafurio, a ph'un bynnag, y disgwyl yw y byddai trefniadau cydlafurio'n cael eu sefydlu dim ond lle byddai hynny'n arwain at ddefnyddio adnoddau cyhoeddus yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae adroddiad PricewaterhouseCoopers ar 'Review of the cost of administering the education system in Wales – Phase 1' yn edrych ar botensial gwneud arbedion o'r fath.

8.22 Mae'n debygol y byddai costau i gyrff llywodraethu ysgolion a SAB o ran gweithredu trefniadau cyd-bwyllgorau, gan y byddai'n rhaid i'r ysgolion/SAB dalu'r gost o redeg y cydbwyllgor, gan gynnwys dod o hyd i glerc. Gallai'r costau dod o hyd i glerc fod yn unol â'r hyn a amcangyfrifwyd ym mharagraff 8.10.

8.23 Gan mai llywodraethwyr, ac felly gwirfoddolwyr, yw aelodau'r cydbwyllgor, ni fyddent yn cael eu talu i gymryd rhan yn y cyd-bwyllgorau, ac eithrio eu costau teithio a chynhaliaeth. Er y gallai fod costau o ran staffio sy'n gysylltiedig â phresenoldeb awdurdodau lleol mewn cyfarfodydd cyd-bwyllgorau, yn enwedig os bydd y rheini'n digwydd y tu allan i oriau gwaith arferol, disgwylir y byddai'r costau hynny'n cael eu gosod yn erbyn y

gostyngiad yn nifer y cyfarfodydd y byddai'n rhaid i staff awdurdodau lleol fynd iddynt o ganlyniad i'r trefniadau cydlafurio.

**Clercio cyd-bwyllgorau**

8.24 O dan y gyfraith gyfredol a chynigion y Mesur arfaethedig, rhaid bod gan bob cydbwyllgor glerc, a hwnnw'n glerc nad yw'n aelod o'r cydbwyllgor, ac eithrio pan nad yw'r clerc arferol yn bresennol. Oherwydd yr amrywiaeth mewn trefniadau clercio ledled Cymru, nid yw'n bosibl amcangyfrif faint y byddai'n costio i gyrff llywodraethu sicrhau gwasanaeth clercio ar gyfer cydbwyllgor, ond disgwylir mai bach iawn fyddai'r gost o wneud hynny. Mae nifer o opsiynau ar gael:

a) Gellid gofyn i glerc presennol corff llywodraethu'r ysgol neu'r SAB gyflawni'r swyddogaeth ychwanegol hon. Mae'n bosibl y byddai'r opsiwn hwn yn golygu costau ychwanegol gan ddibynnu ar delerau contract y clerc. Os bydd ffi yn cael ei dalu i'r clerc yn seiliedig ar glercio corff llywodraethu penodol a/neu gyfarfodydd pwyllgor, mae'n debygol y byddai cost ychwanegol ar gyfer sicrhau gwasanaeth clercio i gydbwyllgorau. Byddai swm y costau ychwanegol a fyddai'n cael eu talu yn dibynnu ar y cyfraddau penodol ar gyfer tâl cydnabyddiaeth a roddir i'r clerc. Mae paragraff 8.10 yn dangos beth allai'r rhain fod.

Mae'n bosibl bod rhai ysgolion yn defnyddio rhywun a gyflogir ganddynt fel clerc. Mae'n bosibl mai telerau cyflogaeth y person hwnnw yw gweithio yn yr ysgol am hyn a hyn o oriau a hefyd gwneud gwaith clercio i ba bynnag corff llywodraethu a chyfarfod pwyllgor y mae angen gwasanaeth clercio arnynt. Yn yr achos hwnnw, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn sgil cynnig gwasanaeth clercio i'r cyd-bwyllgorau.

b) Gallai'r cydbwyllgor benodi person arall i fod yn glerc. Os nad oes capasiti gan glerc presennol y corff llywodraethu i gynnig gwasanaeth clercio i'r cydbwyllgor, byddai rhyddid gan yr ysgolion/SAB i benodi clerc ar wahân. Nid oes unrhyw wybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am y taliadau sy'n cael eu gwneud gan ysgolion i glercod o dan drefniadau preifat (h.y. clercod nad ydynt yn cael eu darparu trwy drefniadau awdurdod lleol). Byddai'r costau hynny'n amrywio'n fawr o ysgol i ysgol, ond mae paragraff 8.10 yn dangos beth allai'r rhain fod.

c) Byddai ysgolion sydd mewn ardaloedd awdurdodau lleol lle cynigir gwasanaeth clercio ac sy'n manteisio ar y cynnig hwnnw yn gallu gofyn i glerc yr awdurdod lleol gyflawni'r swyddogaeth honno. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth clercio yn gytundeb penodol iawn a byddai'n nodi'n union pa gyfarfodydd fyddai'n cael gwasanaeth clercio a'r ffi am wneud hynny. Byddai'r rhan fwyaf o'r rheini yn gyfarfodydd llawn o'r corff llywodraethu yn hytrach na chyfarfodydd pwyllgor. Pe gofynnid i glerc awdurdod lleol fod yn glerc i gyfarfodydd cydbwyllgor, byddai'n rhaid i'r ysgolion a/neu SAB dalu mwy. Mae paragraff 8.10 yn rhoi gwybodaeth am y costau a amcangyfrifir.

8.25 Byddai cost o ran amser yr aelodau sy'n llywodraethwyr a chlerc y cydbwyllgor gan y byddai eu gwaith paratoi ar gyfer cyd-bwyllgorau a'u presenoldeb ynddynt yn ychwanegol at eu cyfarfodydd corff llywodraethu/pwyllgor arferol.

## Ffedereiddio Cyrff Llywodraethu Ysgolion

8.26 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys cynigion i roi pŵer i awdurdodau lleol ffurfio ffederasiwn o gyrff llywodraethu ysgolion os ydynt yn meddu ar dystiolaeth y byddai ffedereiddio'n fanteisiol ac yn gwella'r canlyniadau i ddysgwyr yn yr ysgolion dan sylw. Diwygiwyd y Mesur er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â chyrff llywodraethu'r ysgolion neu'r ffederasiynau sydd i'w ffedereiddio; staff yr ysgolion; unrhyw gyrff yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau staff yr ysgolion (ee undebau); disgyblion a rhieni. Ar gyfer ysgolion bach byddai'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ymgynghori â chyrff llywodraethu'r ysgolion hynny yn unig. Mae gwybodaeth am gostau posibl ffedereiddio wedi'i chynnwys ym mharagraff 8.29.

8.27 Mae'r Rheoliadau presennol ar Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010 yn galluogi cyrff llywodraethu o hyd at bum ysgol i benderfynu a ydynt yn dymuno ffedereiddio o dan un corff llywodraethu ai peidio. Mae'r rheoliadau hefyd yn nodi'r broses i'w dilyn i sicrhau ffedereiddio gan gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid.

8.28 Mae'r rheoliadau wedi bod mewn grym ers Ebrill 2010 ac er na sefydlwyd unrhyw ffederasiynau yng Nghymru, mae ysgolion yn dechrau ystyried ffedereiddio ac archwilio'r manteision sydd ganddo i'w gynnig. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi sefydlu cynlluniau peilot. Bydd canlyniadau'r rhain yn darparu canllawiau arfer gorau ac astudiaethau achos enghreifftiol i ysgolion ac awdurdodau lleol i'w helpu gyda'u cynigion ffedereiddio. O ganlyniad, nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw wybodaeth hyd yn hyn am gostau gweinyddol sefydlu ffederasiwn i ysgolion neu awdurdodau lleol.

8.29 O ystyried y broses y byddai'n rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol (drwy'r Mesur arfaethedig) ei dilyn i ffedereiddio cyrff llywodraethu, sy'n cynnwys paratoi adroddiad; llungopïo'r adroddiad a'i ddosbarthu ymysg rhanddeiliaid i ymgynghori arno; mynychu cyfarfodydd o'r corff llywodraethu i drafod cynigion; ac asesu ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd rhai costau cyflogau a chostau gweinyddol i awdurdodau lleol . Byddai'r costau hynny'n dibynnu ar gyflog y person dan sylw a'r amser y byddai'n ei gymryd i gefnogi'r ysgolion. Mae'n bosibl y byddai Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr yr awdurdodau lleol yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r tasgau cymorth. Os amcangyfrifir fod y gwaith o gefnogi ysgolion sy'n ffedereiddio yn cymryd digon o amser fel bod angen Swyddog Cymorth Llywodraethwyr llawn-amser am flwyddyn, gallai'r costau o bosibl amrywio o £33,000 i tua £35,000. Nid yw strwythurau cyflogau'r

awdurdodau lleol ar gael i ni, ac yn amlwg mae cyflogau’n amrywio rhwng awdurdodau lleol. Ein hamcangyfrif gorau yw y gallai cost cyflogi Swyddog Cymorth Llywodraethwyr llawn-amser fod o fewn yr ystod cyflog hon. Mewn gwirionedd, mae’r costau’n debygol iawn o fod yn is o lawer gan nad oes disgwyl y bydd angen gwasanaethau aelod staff llawn-amser i gefnogi ysgolion i ffedereiddio.

8.30 Mae’n anodd amcangyfrif pa arbedion fyddai o ran costau gan nad oes ffederasiynau wedi’u sefydlu yng Nghymru eto. Yn ôl tystiolaeth gan ysgolion sydd wedi ffedereiddio yn Lloegr mae manteision clir ac arbedion yn bosibl gan ysgolion ffederal sy’n gallu rhannu adnoddau i godi safonau a gwella addysgu a dysgu; gwell arweinyddiaeth ac arbenigedd; a’r corff llywodraethu unigol yn defnyddio ac yn cael mynediad i gyfrannau cyllideb pob ysgol yn y ffederasiwn. Mae Atodiad 9 o Adroddiad yr Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd (yr Adran Addysg bellach) a gyhoeddwyd ym mis Medi
2009

[2] yn dangos rhai arbedion ariannol a wnaed o'r astudiaethau achos o ysgolion cynradd gwledig bach yn ffedereiddio. Yn seiliedig ar rannu pennaeth roedd amcangyfrif o'r arbedion ar gyflogau penaethiaid yn amrywio o isafswm net o £12,000 - £54,530, gan ddibynnu ar bethau amrywiol fel pwynt tâl a graddfa cyflog y penaethiaid; costau atodol; nifer yr ysgolion yn y ffederasiwn.

8.31 I awdurdodau lleol, un o ganlyniadau ffedereiddio cyrff llywodraethu yw ei bod yn debygol y byddai rhai arbedion o ran costau gan y byddai llai o lywodraethwyr i'w cefnogi a'u hyfforddi, a llai o gostau o ran y gwasanaeth clercio. Ond ar hyn o bryd nid oes gwybodaeth am hyn ar gael.

**Hyfforddi Llywodraethwyr**

8.32 Byddai'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr yn y pynciau a ragnodir mewn rheoliadau. Ar hyn o bryd y rhain yw hyfforddiant cynefino, hyfforddiant i gadeiryddion a hyfforddiant i'r holl lywodraethwyr ar y defnydd o ddata. Byddai hefyd yn ofynnol i lywodraethwyr newydd, cadeiryddion a phob categori o lywodraethwyr fynychu'r hyfforddiant. Gwirfoddolwyr yw llywodraethwyr ac nid ydynt yn cael eu talu. Felly, y 'gost i lywodraethwyr' yw eu hamser wrth fynychu'r hyfforddiant.

8.33 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan DA 2002 ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i lywodraethwyr yn rhad ac am ddim. Maent yn cael cyllid i ddarparu'r hyfforddiant hwn drwy'r Grant Cynnal Refeniw, ac mae rhyddid gan awdurdodau lleol i benderfynu faint o'u cyllideb fydd yn cael ei gwario ar hyfforddi llywodraethwyr. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw reolaeth dros y pynciau sy'n cael eu cynnwys gan awdurdodau lleol yn eu rhaglenni hyfforddiant i lywodraethwyr. Caiff y pynciau eu penderfynu yn ôl eu disgresiwn hwy ond dylent ganolbwyntio ar ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen ar lywodraethwyr i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol.

8.34 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil yn Abertawe i gynnal ymchwil a chynhyrchu deunyddiau hyfforddi i awdurdodau lleol, sy'n rhad ac am ddim. Yn 2010-2011 cafodd y Ganolfan grant gwerth £52,500. Dyrannwyd £16,000 ohono ar gyfer llunio rhaglen genedlaethol o hyfforddiant cynefino. Yn 2008 cynhaliodd y Ganolfan ymchwil i'r ddarpariaeth hyfforddiant gan awdurdodau lleol i lywodraethwyr yng Nghymru. Canfu'r adroddiad fod 21 o awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr newydd a 7 awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant penodol i gadeiryddion.

8.35 Er mwyn helpu awdurdodau lleol ymhellach a'u helpu i leihau costau darparu hyfforddiant, yn 2007 lluniodd y Ganolfan yn Abertawe raglen hyfforddi i gadeiryddion llywodraethwyr; ac mae ar hyn o bryd yn gweithio ar becyn hyfforddiant cynefino a ddylai fod ar gael o fis Ebrill 2011. Mae'r ddau

[2] Better Together Exploratory Case Studies of formal collaboration Between Small rural primary Schools – Medi 2009 – Adroddiad Ymchwil DCSF RR162

wedi'u datblygu a'u hysgrifennu'n benodol mewn ffordd sy'n caniatáu i berson allu cyflwyno'r pecyn hyfforddi llawn. Er enghraifft, mae'r pecyn yn cynnwys sleidiau, cwestiynau i'r hyfforddwr eu gofyn a phwyntiau i'w trafod yn y sesiwn hyfforddi.

8.36 Er mwyn gwella ansawdd yr hyfforddiant cynefino a'r hyfforddiant i gadeiryddion, bydd y Mesur arfaethedig yn caniatáu rheoliadau sy'n darparu fframwaith statudol yn nodi cynnwys yr hyfforddiant hwnnw.

**Clercod Cyrff Llywodraethu**

8.37 Y cynnig yn y Mesur yw y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig gwasanaeth clercio i bob un o'u hysgolion ac os byddai hynny'n cael ei dderbyn, yn darparu'r gwasanaeth hwnnw. Byddai hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig hyfforddiant i glercod. Nid oes raid i ysgolion dderbyn y cynnig o wasanaeth clerc na'r cynnig o hyfforddiant yr awdurdod lleol i glercod.

8.38 Yn ddiweddar comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Millar Research i wneud ymchwil ar y ddarpariaeth glercio ledled Cymru. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn dangos ar hyn o bryd fod:

- 9 awdurdod lleol yn cynnig gwasanaeth clercio i'w holl ysgolion;
- 3 awdurdod lleol yn cynnig gwasanaeth i rai ysgolion, h.y. i bob ysgol gynradd ond nid i'r ysgolion uwchradd; a
- 10 awdurdod lleol ddim yn cynnig unrhyw wasanaeth clercio o gwbwl.

8.39 Fodd bynnag, bydd modd i'r gost o ddarparu gwasanaeth clercio gael ei digolledu'n gyfan gwbl drwy'r cytundeb lefel gwasanaeth ag ysgolion.

8.40 Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos bod cost y gwasanaeth clercio a ddarperir gan awdurdod lleol yn amrywio'n fawr o isafswm o £450 yr ysgol ar gyfer clercio hyd at 6 chyfarfod llawn o gyrff llywodraethu; tra bod uchafswm y gost yn £2,000 yr ysgol ar gyfer clercio tri chyfarfod corff llywodraethu y flwyddyn (un bob tymor), yn ogystal â'r holl waith gweinyddol o baratoi agendâu, cyhoeddi papurau, cymryd cofnodion a rhoi cyngor i'r corff llywodraethu.

8.41 Mae gan bob awdurdod lleol bris sydd wedi'i bennu ar gyfer y gost o glercio cyfarfodydd ychwanegol, boed yn gorff llywodraethu llawn neu'n bwyllgorau. Unwaith eto mae'r cyfraddau'n amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Mae rhai awdurdodau lleol yn codi tâl fesul awr am gyfarfodydd ychwanegol (un enghraifft yw £17 yr awr); mae eraill yn codi un ffi hollgynhwysfawr, un awdurdod lleol yn codi er enghraifft £150 am gyfarfod 2 awr yn ogystal â thâl ychwanegol o £5.50 am bob 15 munud dros yr amser hwnnw. Felly, o ystyried yr amrywiadau sy'n bodoli o ran costau darparu gwasanaeth clercio awdurdodau lleol byddai'n anodd iawn ac yn gamarweiniol cynnig cyfartaledd y gost o glercio corff llywodraethu neu gyfarfod pwyllgor.

8.42 Ni ddylai fod unrhyw gost ychwanegol i awdurdodau lleol sy’n cynnig gwasanaeth clercio gan y bydd yr ysgolion sy’n derbyn y cynnig o bosibl yn talu am amser y clerc drwy eu cyllidebau dirprwyedig.

8.43 Rydym wedi cael ystadegau ar niferoedd yr ysgolion a gynhelir ymhob awdurdod lleol. Rydym wedi dewis yr awdurdod lleol sydd â’r nifer uchaf o ysgolion – 131 - nad yw ar hyn o bryd yn cynnig gwasanaeth clercio; ac yn yr un modd yr awdurdod lleol sydd â’r nifer isaf o ysgolion – 56 - i roi amcangyfrif o’r costau.

8.44 Yn seiliedig yn syml ar y data moel sydd gennym, byddai’r gost o ddarparu gwasanaeth clercio yn yr awdurdod lleol ag iddo 131 o ysgolion, pe bai pob ysgol yn derbyn cynnig yr awdurdod lleol, yn amrywio o tua £60,000 (yn seiliedig ar gost o £450 yr ysgol) am ddarparu clerc ar gyfer 6 chyfarfod llawn o’r corff llywodraethu y flwyddyn, i £262,000 (yn seiliedig ar £2,000 yr ysgol) am wasanaeth ehangach.

8.45 Byddai’r gost yn yr awdurdod lleol â 56 ysgol yn amrywio o £25,200, yn seiliedig ar gost o £450 yr ysgol, i uchafswm o £112,000, yn seiliedig ar gost o £2,000 yr ysgol.

8.46 Fodd bynnag, nid oes raid i ysgolion dderbyn cynnig yr awdurdod lleol, ac mae’n annhebygol y bydd hynny’n digwydd os yw cost gwasanaeth yr awdurdod lleol yn uwch na’r hyn y mae’r ysgol yn ei dalu i’r clerc ar hyn o bryd. Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw wybodaeth am faint mae ysgolion yn talu eu ‘clercod preifat’.

Ysgolion Sefydledig
8.47 Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth ar ysgolion sefydledig arwain at unrhyw gostau, fodd bynnag y disgwyl yw y byddai mân arbedion i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn sgil lleihau’r prosesau gweinyddol.

8.48 Byddai gwneud y Mesur yn arbed y costau posibl a nodir yn yr opsiwn “gwneud dim” ond byddai diwygio’r canllawiau a nodir yn yr opsiwn “gwneud y lleiaf posibl” yn ddymunol er mwyn ei gwneud yn glir y byddai’n rhaid i unrhyw newidiadau o ran categori fodloni mwy o feini prawf penodol, er y byddai pob achos yn parhau i gael ei ystyried yn ôl teilyngdod. Byddai’r amser staff a fyddai’n cael ei arbed o ganlyniad i beidio ag ymwneud â chynigion ar newid categori yn sicrhau eu bod yn gallu ymdrin yn gynt â gwaith achos arall. Er hynny, gan mai prin fu cynigion o’r fath yn y gorffennol, byddai lle i ddisgwyl na fyddai’r arbedion yn sylweddol. Mae perygl y byddai gwneud y mesur yn sbarduno rhagor o ysgolion i wneud ceisiadau am newid categori cyn i’r Mesur ddod i rym. Byddai hynny’n arwain at gostau gweinyddol ar gyfer bob achos yn debyg i’r rheini a ddisgrifir yn yr “opsiwn gwneud dim”.

8.49 Dyma'r prif fanteision a ddaw o gyflwyno Mesur Cynulliad:

| Darpariaeth | Manteision |
|---|---|
| Cydlafurio<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ffedereiddio | Sicrhau bod cydlafurio yn elfen fwy cyffredin, a sicrhau bod addysg yn cael ei darparu yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon posibl mewn meysydd penodol<br><br>Lledaenu arfer da ac arbenigedd, i ddatblygu arweiniad strategol ar gyfer grwpiau o ysgolion ac i ffocysu adnoddau.<br><br>Gallai awdurdodau lleol weithredu o bersbectif strategol i sicrhau bod y trefniadau cydlafurio yn ffocysu'n glir ar amcanion, gyda'r nod o annog cyrff i edrych y tu hwnt i ffiniau sefydliadol i fodloni anghenion dysgwyr.<br><br>Manteision i ddysgwyr o gael un corff llywodraethu sydd â golwg gyffredinol dros y sefyllfa a'r gallu i rannu adnoddau, er mwyn gwella'r cyfleoedd dysgu h.y. cwricwlwm sydd ar gael yn hawdd, dysgu o ansawdd uwch, rhannu staff, cyfleusterau ac arfer da. |
| Llywodraethu | Gwella gallu llywodraethwyr a chodi safonau gwasanaethau clercio. Byddai'r rheini'n codi safonau llywodraethu ysgolion a fyddai'n gwella perfformiad ysgolion |
| Ysgolion Sefydledig | Cynnal capasiti presennol awdurdodau lleol i reoli lleoedd mewn ysgolion.<br><br>. |

## 9. Asesu Cystadleuaeth

9.1 Nid oes angen Asesiad o'r Gystadleuaeth mewn perthynas â'r Mesur hwn gan ei fod yn ymwneud â'r trefniadau gweinyddol ar gyfer rheoli ysgolion.

9.2 Felly, nid oes angen defnyddio'r hidlydd cystadlu yn yr achos hwn.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

***Cydlafurio, Ffedereiddio, Hyfforddi Llywodraethwyr a Gwasanaethau Clercio***

10.1 Unwaith bod y Mesur arfaethedig a'r is-ddeddfwriaeth yn eu lle, gellir monitro effaith a chynnydd gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd trwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid a swyddogion. Bydd swyddogion yn cyfarfod â chynrychiolwyr Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr deirgwaith y flwyddyn ac yn cyfarfod â Llywodraethwyr Cymru bob tri mis.

**Ysgolion Sefydledig**

10.2 Bydd ymholiadau am newid categori yn cael eu monitro a'u hystyried wrth ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth bellach ar drefnu ysgolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth ysgolion awdurdodau lleol yn gyson, a hynny drwy gasglu data a thrwy dystiolaeth sy'n tarddu o arolygiadau Estyn.

# Atodiad A – Nodiadau Esboniadol

## *Cyflwyniad*

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Mesur Addysg (Cymru) 2011 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar XXX ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar XXX.

Maent wedi eu paratoi gan yr Adran dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo darllenydd y Mesur a goleuo'r drafodaeth arno. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur ac nid ydynt wedi'u hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Felly, pan nad yw'n ymddangos bod angen rhoi esboniad neu sylw ar ddarpariaeth neu ran o ddarpariaeth, ni roddir yr un.

## *SYLWEBAETH AR ADRANNAU*

## ***Rhan 1:*** *Cydlafurio  gan gyrff addysg*

**Adran 1** – Cyrff addysg

Mae Rhan 1 o'r Mesur yn rhoi swyddogaethau i gyrff addysg mewn cysylltiad â threfniadau i gydlafurio. Yn yr adran hon diffinnir cyrff addysg fel awdurdod lleol, corff llywodraethu ysgol a gynhelir, corfforaeth addysg bellach, a sefydliad addysg bellach  a ddynodwyd o dan adran 28(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

**Adran 2** – Amcan y cydlafurio

Mae'r adran hon yn pennu amcan Rhan 1 o'r Mesur, sef sicrhau y defnyddir adnoddau cyhoeddus yn effeithiol ac effeithlon mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant hyd at 19 oed ("amcan y cydlafurio").

**Adran 3** – Dyletswydd corff addysg i gydlafurio

Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar gorff addysg i ystyried o bryd i'w gilydd, wrth arfer ei swyddogaethau eraill, a fyddai arfer ei bwerau cydlafurio yn hyrwyddo amcan y cydlafurio. Yr hyn a gynhwysir yn swyddogaethau eraill awdurdod lleol yw ei swyddogaethau addysg yn unig (gweler y diffiniad o "swyddogaethau" yn adran 8). Os yw'n ystyried y byddai cydlafurio'n cyflawni'r amcan, rhaid i'r corff addysg  geisio arfer ei bwerau cydlafurio (is-adran (2)).

Mae is-adran (3) yn cyfyngu'r ddyletswydd o ystyried cydlafurio, a osodir ar sefydliadau addysg bellach, i'r ddarpariaeth o addysg i rai hyd at 19 oed.

**Adran 4** – Ystyr "pwerau cydlafurio"

Mae adran 4 yn diffinio ystyr y "pwerau cydlafurio" a roddir i gyrff addysg. Yn achos pob corff addysg y pwerau yn adran 5 yw'r rhain ac yn achos awdurdodau lleol, mae'r rhain yn cynnwys hefyd bwerau mewn deddfwriaeth arall.

**Adran 5** – Pwerau i gydlafurio

Mae'r adran hon yn rhoi pwerau eang i gyrff addysg i'w galluogi i gydlafurio, at y diben o gyflawni, neu hwyluso cyflawni, eu dyletswyddau o dan adran 3 o'r Mesur, adran 33K o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ac adran 116J o Ddeddf Addysg 2002, neu ddyletswydd corff addysg arall o dan y darpariaethau hynny.  Mae adran 33K o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ac adran 116J o Ddeddf Addysg 2002 yn gosod dyletswyddau mewn perthynas â chyflenwi'r cwricwlwm lleol.

Mae adran 5 yn caniatáu i gorff addysg gydlafurio â chorff addysg arall i hwyluso cyflawni dyletswyddau'r corff addysg arall hwnnw, pa un a fyddai hynny'n hwyluso cyflawni ei ddyletswyddau'i hunan ai peidio.

Mae'r pwerau cydlafurio'n cynnwys pwerau i ddirprwyo swyddogaethau ac i drefnu i gyd-bwyllgorau gyflawni eu swyddogaethau.

Er bod y Mesur yn rhoi'r un pwerau i bob math o gorff addysg a gwmpesir gan y Mesur, nid yw'n galluogi nac yn gorfodi cyrff eraill i gydlafurio gyda chorff addysg. Mae'n bosibl, fodd bynnag, y caiff cyrff o'r fath wneud hynny o dan eu pwerau presennol.

Mae is-adran (3) yn darparu na fydd y pwerau newydd hyn yn effeithio ar bwerau unrhyw gorff addysg mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall, ac y cyfyngir ar y pwerau newydd hyn gan unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 6.

**Adran 6 –** Rheoliadau ynghylch y pŵer i gydlafurio

Mae is-adran (1) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach drwy gyfrwng rheoliadau ynghylch y pŵer i gydlafurio. Gallai rheoliadau o dan yr is-adran hon bennu, er enghraifft, pa swyddogaethau na chaiff corff addysg eu dirprwyo i gorff arall neu gyd-bwyllgor.

Mae is-adran (2) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth benodol ynglŷn â chyfansoddiad a gweithdrefn cyd-bwyllgorau o'r cyrff addysg sy'n cydlafurio, a materion cysylltiedig eraill.

Mae is-adrannau (3) a (4) yn darparu y caiff rheoliadau addasu unrhyw ddeddfwriaeth mewn perthynas â swyddogaethau'r cyrff addysg sy'n cydlafurio, pan fo'r swyddogaethau hynny wedi eu dirprwyo, neu mewn perthynas â'r cyrff sydd i gyflawni'r swyddogaethau hynny, o ran y modd y cymhwysir y ddeddfwriaeth i'r swyddogaethau neu'r cyrff hynny. Hwyrach y bydd angen addasu'r ddeddfwriaeth i adlewyrchu'r ffaith mai corff arall neu gyd-bwyllgor fydd yn cyflawni swyddogaeth benodol mewn gwirionedd (yn lle, neu'n ogystal â'r corff addysg y rhoddwyd y swyddogaeth iddo).

**Adran 7 –** Canllawiau

Mae adran 7 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau am gydlafurio y bydd rhaid i gyrff addysg roi sylw iddynt.

**Adran 8 –** Dehongli'r Rhan hon

Mae'r adran hon yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn Rhan 1 o'r Mesur.

**Adran 9 –** Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Mae adran 9 yn diddymu, i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, adran 26 o Ddeddf Addysg 2002 ac adran 166 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Roedd yr adrannau hynny'n darparu ar gyfer gwneud rheoliadau i ganiatáu cydlafurio rhwng ysgolion, cydlafurio rhwng cyrff addysg bellach, a rhwng ysgolion a chyrff addysg bellach. Disodlwyd yr adrannau hynny bellach, o ran Cymru, gan ddarpariaethau Rhan 1 o'r Mesur, sy'n gosod dyletswyddau

mewn perthynas â chydweithio. Mae adran 9 yn gwneud diwygiadau canlyniadol eraill yn ogystal.

## Rhan 2: Llywodraethu Ysgolion

**Pennod 1**: Ffedereiddio ysgolion a gynhelir

*Mae'r Bennod hon yn disodli, o ran Cymru, adrannau 25 a 26 o Ddeddf Addysg 2002, gan wneud darpariaeth newydd ar gyfer ffedereiddio ysgolion a gynhelir. Mae ffedereiddio'n caniatáu ar gyfer ffurfio grŵp ar y cyd, o ddwy neu ragor o ysgolion o dan un corff llywodraethu.*

**Adran 10** – Ffedereiddio ysgolion gan gyrff llywodraethu

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ddarparu y caiff dwy neu ragor o ysgolion ffedereiddio, neu ffederasiwn presennol ffedereiddio ag un neu ragor o ysgolion, neu ddau neu ragor o ffederasiynau presennol ffedereiddio, o dan un corff llywodraethu. Mae'n darparu ymhellach mai penderfyniad sydd i'w wneud gan y corff llywodraethu dan sylw yw ffedereiddio o dan yr adran hon, unwaith y bydd wedi cydymffurfio ag amodau a gweithdrefnau penodol a bennir mewn rheoliadau.

**Adran 11** – Cynigion gan awdurdodau lleol i ffedereiddio ysgolion

Mae is-adran (1) yn darparu pŵer i awdurdodau lleol yng Nghymru, i gynnig y caiff dwy neu ragor o ysgolion a gynhelir ffedereiddio, ffederasiwn presennol ffedereiddio ag un neu ragor o ysgolion, neu ddau neu ragor o ffederasiynau presennol ffedereiddio, o dan un corff llywodraethu.

Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol, sy'n gwneud cynigion i ffedereiddio ysgolion neu ffederasiynau o dan yr adran hon, gyhoeddi'r cynigion hynny. Mae is-adran (2A) yn darparu bod awdurdod lleol i ymgynghori â chyrff penodol ynglŷn â'r cynigion cyhoeddedig.

Nid yw'r gofynion hyn i gyhoeddi ac ymgynghori yn gymwys i gynnig i ffedereiddio ysgolion bach. Diffinnir ysgol fach gan orchymyn a wneir o dan adran 15 o'r Mesur. Pan fo cynnig o'r fath, mae is-adran (2C) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori â neb ond cyrff llywodraethu'r ysgolion bach sydd i'w ffedereiddio.

Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol benderfynu unrhyw gynigion i ffedereiddio ysgolion. Bydd y weithdrefn ar gyfer penderfynu cynigion yn cael ei phennu mewn rheoliadau. Caiff yr awdurdod lleol gadarnhau'r cynigion (naill ai gydag addasiadau neu hebddynt, neu'n ddarostyngedig i ddigwyddiad penodol) neu caiff eu tynnu'n ôl.

Mae is-adran (4) yn caniatáu i awdurdodau lleol ystyried ffedereiddio gydag ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol arall, ar yr amod y ceir caniatâd yr awdurdod lleol arall.

Mae is-adran (5) yn gwneud yn ofynnol cael caniatâd personau penodol, cyn y caiff awdurdod lleol gynnig ffederasiwn sy’n cynnwys ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol. Y personau hynny, yn achos ysgol Gatholig Rufeinig neu ysgol yr Eglwys yng Nghymru yw’r awdurdod esgobaethol, ac yn achos ysgolion sefydledig neu wirfoddol eraill, y personau sy’n penodi’r llywodraethwyr sefydledig.

Mae is-adran (6) yn darparu y caiff rheoliadau bennu gofynion mewn perthynas â chynigion i ffedereiddio. Gallai’r rheini gynnwys, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd personau penodol cyn y caiff awdurdod wneud, cyhoeddi neu gadarnhau’r cynigion. Caiff rheoliadau a wneir o dan yr is-adran hon wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ffederasiwn sy’n cynnwys ysgol fach.

**Adran 12** – Gweithredu cynigon o dan adran 11

Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithredu cynigion i ffedereiddio.

Mae is-adrannau (2) a (3) yn pennu’r rhai y mae’n ofynnol eu bod yn gweithredu’r cynigion. Y rhain yw’r awdurdod lleol neu’r corff llywodraethu, i’r graddau y mae’r cynigion yn darparu ar gyfer hynny, ac unrhyw berson arall a bennir mewn rheoliadau.

Pan fo awdurdod lleol wedi cadarnhau cynigion, rhaid eu gweithredu fel y’u cadarnhawyd (is-adran (4)). Fodd bynnag, ceir addasu cynigion a gadarnhawyd ar gais person a bennir mewn rheoliadau (is-adran (5))

O dan is-adran (6), caiff awdurdod lleol benderfynu peidio â gweithredu cynnig a gadarnhawyd os byddai gwneud hynny’n afresymol o anodd, neu os yw’r amgylchiadau wedi newid i’r fath raddau nad yw’n briodol gwneud hynny mwyach. Caiff rheoliadau wneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol yn ymgynghori â phersonau rhagnodedig cyn penderfynu felly (is-adran (7)).

**Adran 13** – Corff llywodraethu sengl ar gyfer ffederasiynau

Grŵp o ysgolion sydd ag un corff llywodraethu yw ffederasiwn. Bydd yr ysgolion o fewn ffederasiwn yn parhau i gael eu trin fel ysgolion unigol (ac felly, wrth arfer ei ddyletswyddau, rhaid i’r corff llywodraethu wneud hynny mewn perthynas â phob ysgol o fewn y ffederasiwn yn unigol ). Fodd bynnag, ceir pennu’r amgylchiadau mewn rheoliadau pan ganiateir trin ffederasiwn fel pe bai’n ysgol sengl.

**Adran 14** – Rheoliadau mewn perthynas â ffederasiynau

Mae’r adran hon yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â ffederasiynau, gan gynnwys mewn perthynas â’u diddymu, a throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau.

**Adran 15** – Dull adnabod at ddibenion y Bennod hon ysgolion bach a gynhelir yng Nghymru

Mae’r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn sy’n diffinio “ysgol fach a gynhelir” yn ôl y nifer o ddisgyblion mewn ysgol. Y niferoedd o ddisgyblion fyddai’r niferoedd a bennid ar ddyddiad penodol mewn blwyddyn ysgol. Unwaith y diffinnir ysgol fach a gynhelir, bydd modd i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ysgolion o’r fath i ffedereiddio.

**Adran 15A** – Ffedereiddio ysgolion sy’n peri pryder drwy gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru

Mae’r adran hon yn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ysgolion sy’n peri pryder i ffedereiddio. Mae’n gwneud hyn drwy fewnosod adran 18B newydd ym Mhennod 4 o Ran 1 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (ymyrryd mewn ysgolion yng Nghymru sy’n peri pryder).

Mae’r adran 18B(1) a (2) newydd yn esbonio beth a olygir wrth ‘ysgol sy’n peri pryder’ at ddibenion y pŵer hwn i ymyrryd. Mae’n cynnwys - ysgol sy’n destun mesurau arbennig; ysgol sydd angen gwelliant sylweddol; ysgol lle y mae safonau perfformiad y disgyblion yn annerbyniol o isel; ysgol lle y cafwyd methiant difrifol ym maes rheoli neu lywodraethu sy’n niweidio neu’n debyg o niweidio safonau perfformiad; ysgol lle y mae diogelwch y disgyblion neu’r staff o dan fygythiad; ac ysgol sy’n methu â chydymffurfio â gorchymyn ynghylch tâl ac amodau athrawon.

Mae is-adran (3) o’r adran 18B newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu, ac mae is-adran (4) yn nodi’r gwahanol fathau o drefniadau y cânt gyfarwyddo yn eu cylch. Mae’r rhain yn cynnwys ffedereiddio ysgol sy’n peri pryder ag un neu fwy o ysgolion eraill neu â ffederasiwn sy’n bodoli eisoes, a chyfarwyddo ysgol sy’n peri pryder i ymadael â ffederasiwn.

Mae is-adran (5) o’r adran 18B newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff penodol cyn gwneud cyfarwyddyd ac mae is-adrannau (6) a (7) yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â gwneud, amrywio a dirymu cyfarwyddiadau, gan gynnwys darpariaeth bod cyfarwyddiadau o’r fath yn orfodadwy drwy orchymyn mandadol yr Uchel Lys.

Mae adran 15A o’r Mesur arfaethedig hefyd yn diwygio adran 14(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel na chaiff awdurdod lleol arfer ei bwerau ymyrryd mewn perthynas ag ysgol sy’n peri pryder os yw Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer ymyrryd yn yr adran 18B newydd.

**Adran 17** – Canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru

Mae’r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar ffedereiddio y bydd rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru roi sylw iddynt, wrth arfer eu swyddogaethau o dan Bennod 1 o Ran 2 o’r Mesur.

**Adran 18** – Ffederasiynau: darpariaethau atodol

Mae'r adran hon yn caniatáu gwneud rheoliadau sy'n addasu Pennod 4 o Ran 1 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder) ac adrannau 49 – 51 ac Atodlen 15 i'r Ddeddf honno (dirprwyo ariannol) o ran y modd y'u cymhwysir i ffedereiddio ysgolion.
Gallai rheoliadau o dan yr adran hon ddarparu, er enghraifft, pan geir amodau penodol sy'n ysgogi pwerau ymyrryd mewn un ysgol o fewn ffederasiwn ond nid mewn ysgolion eraill, y gellid, er gwaethaf hynny, arfer y pwerau ymyrryd hynny mewn perthynas â'r corff llywodraethu. Mae adran 18 yn caniatáu hefyd gwneud rheoliadau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwahanol gategorïau o ysgolion. Bydd rheoliadau o'r fath yn egluro sut y cymhwysir y ddeddfwriaeth honno i ysgolion sydd o fewn yr un ffederasiwn ond yn perthyn i wahanol gategorïau .

**Adran 19** – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Addysg 2002

Mae'r adran hon yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adrannau 19 ac 20 o Ddeddf Addysg 2002, fel bod y darpariaethau hynny'n cyfeirio at ffederasiynau o dan y Mesur. Mae'n cyfyngu'r modd y mae adrannau 24, 25 a 29 o Ddeddf Addysg 2002 yn gymwys i Loegr am eu bod wedi eu disodli, yn achos Cymru, gan y ddarpariaeth a wnaed gan y Bennod hon. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 2002 i'w gwneud yn glir, os bydd ysgol mewn ffederasiwn yn cau a bod mwy nag un ysgol ar ôl yn y ffederasiwn, ni fydd corff llywodraethu'r ffederasiwn yn cael ei ddiddymu'n awtomatig.

**Adran 19A** – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Addysg 2005

Mae'r adran hon yn gwneud mân ddiwygiad a diwygiad canlyniadol i Ddeddf Addysg 2005 fel ei bod yn cyfeirio at ffederasiynau o dan y Mesur hwn.

**Adran 20** – Dehongli'r Bennod hon

Mae is-adran (1) yn diffinio termau a ddefnyddir ym Mhennod 1 o Ran 2 o'r Mesur. Mae is-adran (2) yn darparu ar gyfer dehongli termau a ddefnyddir mewn unrhyw ddeddfiad mewn perthynas ag ysgol ffederal, gan bennu, er enghraifft, fod cyfeiriad mewn deddfwriaeth at gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yn cael effaith, mewn perthynas â ffederasiwn, fel pe bai'n gyfeiriad at gorff llywodraethu ffederasiwn.

**Pennod 2: Hyfforddiant i lywodraethwyr a chlercod a darparu clercod**

**Adran 21** – Gwybodaeth a hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion a gynhelir

Mae is-adrannau (1) a (2) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth i lywodraethwyr ysgolion a gynhelir yng Nghymru, er mwyn galluogi'r llywodraethwyr i gyflawni eu swyddogaethau.

Mae is-adrannau (3) a (4) yn darparu y caiff rheoliadau wneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn sicrhau (yn ddi-dâl) y ddarpariaeth o hyfforddiant a ragnodir ar gyfer llywodraethwyr ysgolion.

Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau.

**Adran 22** – Dyletswydd awdurdodau lleol i ddarparu clercod i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

Mae rheoliadau o dan adran 23 o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu ar gyfer penodi clerc i gorff llywodraethu. O dan adran 22 o'r Mesur hwn, rhaid i awdurdod lleol roi gwybod i'r corff sy'n penodi'r clerc y caiff ofyn i'r awdurdod lleol ddarparu person i weithredu fel y clerc. Caiff rheoliadau wneud yn ofynnol, pan wneir cais o'r fath gan gorff o'r fath, bod yr awdurdod lleol yn darparu clerc, a darperir ar gyfer talu am ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

**Adran 23** – Hyfforddiant i glercod cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

Caiff rheoliadau o dan yr adran hon osod dyletswydd ar y corff sy'n penodi clerc i gorff lywodraethu (yn unol â rheoliadau o dan adran 23 o Ddeddf Addysg 2002). Y ddyletswydd y ceir ei gosod yw sicrhau bod y person a benodir yn glerc wedi cwblhau hyfforddiant hyd at safon a bennir yn y rheoliadau. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â hyfforddi clercod.

**Adran 24** – Dyletswydd awdurdodau lleol i sicrhau bod hyfforddiant ar gael i glercod

Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau'r hyfforddiant yr ystyria'n briodol ar gyfer clercod i gyrff llywodraethu.

## Rhan 3: Ysgolion Sefydledig

**Ysgolion sefydledig**

**Adran 25** – Gwahardd sefydlu ysgolion sefydledig newydd

Mae Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") yn gwneud darpariaeth ynglŷn â sefydlu, newid a dirwyn i ben ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae adran 28 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 6 i'r Ddeddf honno yn gwneud darpariaeth ynghylch cynigion ar gyfer sefydlu a newid ysgolion cymunedol, sefydledig a gwirfoddol ac ysgolion meithrin a gynhelir, ac ynghylch gweithredu'r cynigion hynny. Mae'r adran hon yn

diwygio adran 28 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 6 i'r Ddeddf honno, drwy ddiddymu gallu awdurdodau leol neu hyrwyddwyr eraill i sefydlu ysgol sefydledig newydd yng Nghymru. Mae'r adran hon hefyd yn diddymu gallu Gweinidogion Cymru i gynnig sefydlu ysgol sefydledig ar gyfer disgyblion dros 16 mlwydd oed.

**Adran 26** – Gwahardd newid categori i ysgol sefydledig

Yn Atodlen 8 i Ddeddf 1998 gwneir darpariaeth sy'n galluogi ysgolion yng Nghymru i newid eu categori. Mae adran 26 o'r Mesur hwn yn diwygio Atodlen 8 i Ddeddf 1998, gan ddiddymu gallu awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gynnig bod ysgol yn newid ei chategori er mwyn dod yn ysgol sefydledig. Ni fydd hyn yn rhwystro ysgol sy'n ysgol sefydledig ar hyn o bryd rhag newid ei chategori er mwyn bod mewn categori gwahanol.

**Adran 27** – Arbedion: cynigion i sefydlu ysgolion sefydledig newydd

Mae adran 27 yn cynnwys darpariaethau arbed. Nid yw'r diwygiadau a wneir gan adran 25 yn effeithio ar unrhyw gynnig i sefydlu ysgol sefydledig newydd, a gyhoeddwyd cyn bod adran 25 wedi dod i rym ac nad yw wedi ei weithredu. Bydd cynnig o'r fath, felly, yn parhau i gael ei drin o dan adran 28 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 6 i'r Ddeddf honno, fel pe na bai'r diwygiadau a wnaed gan adran 25 wedi dod i rym.

**Adran 28** – Arbedion: cynigion i newid categori i ysgol sefydledig

Mae adran 28 yn cynnwys darpariaethau arbed. Nid yw'r diwygiadau a wneir gan adran 26 yn effeithio ar unrhyw gynnig ar gyfer newid categori ysgol i gategori arall a gyhoeddwyd cyn bod adran 26 wedi dod i rym ac nad yw wedi ei weithredu. Bydd cynnig o'r fath, felly, yn parhau i gael ei drin o dan Atodlen 8 i Ddeddf 1998, fel pe na bai'r diwygiadau a wnaed gan adran 26 wedi dod i rym.

**Adran 29** – Pwerau atodol

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth yr ystyriant yn angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn rhoi effaith lawn i adrannau 25 i 28. Caiff gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y pŵer hwn, ymhlith pethau eraill, ddiwygio neu ddirymu is-ddeddfwriaeth.

# Rhan 4: Cyffredinol

**Adran 30** – Dehongli'n gyffredinol

Mae is-adran (1) yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Mesur. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid darllen y Mesur yn unol â Deddf Addysg 1996. Golyga hynny fod rhaid darllen y diffiniadau yn y Ddeddf honno fel pe baent yn ymestyn ar draws i'r Mesur hwn, a bod darpariaethau cyffredinol y Ddeddf

honno yn gymwys i'r Mesur. Er enghraifft, rhestrir "educational functions" awdurdod lleol yn Atodlen 36A i Ddeddf Addysg 1996, ac y mae'r diffiniad hwnnw, felly, yn gymwys i'r term hwnnw ac i "swyddogaethau addysgol" pan ddefnyddir hwy yn y Mesur hwn. Mae'r diffiniadau a bennir yn y Mesur yn drech nag unrhyw rai a ddefnyddir yn Neddf Addysg 1996 os oes gwahaniaeth ystyr (is-adran (3)).

**Adran 31** – Gorchmynion a rheoliadau

Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gwneud gorchmynion a rheoliadau o dan y Mesur drwy offeryn statudol, ac yn pennu gweithdrefnau'r Cynulliad mewn perthynas â'r offerynnau hynny.

**Adran 32** – Cychwyn

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chychwyn. Daw adrannau 25 i 33 i rym ddau fis wedi i'r Mesur gael ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor. Deuir â darpariaethau eraill y Mesur i rym drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru .

**Adran 33** – Enw byr a chynnwys y Mesur yn y Deddfau Addysg

Mae is-adran (1) yn darparu mai enw'r Mesur hwn yw Mesur Addysg (Cymru) 2011. Bydd y Mesur hwn yn cael ei gynnwys yn y restr o Ddeddfau Addysg a gynhwysir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996 (is-adran (2)). Bydd unrhyw gyfeiriad mewn deddfwriaeth at "y Deddfau Addysg" neu "the Education Acts" yn cynnwys cyfeiriad at y Mesur hwn.